# tafod elái

HYDREF 2023

Rhif 381

Pris £1


## Dathlu Llwyddiant Elusen BanglaCymru



Cynhaliwyd noson arbennig i ddiolch i Dr Jishu o Bangladesh am ei waith dros BanglaCymru yng Nghlwb y Bont ym mis Medi.

Sefydlwyd elusen BanglaCymru pymtheg mlynedd yn ôl gan Wil Morus Jones i ariannu llawdriniaeth i rai sy'n dioddef o wefus a/neu daflod hollt a rhai sydd wedi dioddef llosgiadau difrifol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Dr Jishu a'i dîm wedi bod yn cynnal sesiynau llawdriniaethau yn ardaloedd y coedwigoedd lle mae pobl yn byw bywyd cyntefig iawn. Mae'r ymgyrch hwn yn profi'n hynod lwyddiannus a llawer wedi cael eu trin; pobl na feddylient erioed y byddai'r ffasiwn beth yn bosib.

Mae'r ganolfan yn Chittagong sy'n gwasanaethu'r tlodion wedi ail-agor ac mae'r clinig llygad yn dal i gael ei gynnal yn rheolaidd yn ogystal â'r gweithgareddau meddygol eraill.



Ers pymtheg mlynedd bellach mae elusen BanglaCymru wedi codi dros £600,000 a pherfformiwyd 1,456 o lawdriniaethau sydd wedi newid cymaint o fywydau mewn sawl ffordd yn y wlad heriol hon.

Wrth ddirwyn yr elusen i ben daeth llu o gefnogwyr i'r dathliad yng Nghlwb y Bont a chafwyd cyfle i dalu teyrnged i Dr Jishu a'i dîm am eu gwaith ac i Wil Morus Jones am ei ysbrydoliaeth yn codi arian ledled Cymru.

## Colli Gareth Miles



Dechrau Medi bu farw Gareth Miles adre gyda'r teulu yn Llanddarog ar ôl treulio cyfnod hir yn yr ysbyty. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Glantaf ac wedyn yng Nghlwb y Bont yn ôl ei ddymuniad. Bu teyrngedau lu iddo yn y wasg a'r cyfryngau. Dyma ran o'r deyrnged a gafwyd yn y Senedd gan Heledd Fychan A.S.

'Mae'n hawdd anghofio bod cenhedlaeth arwrol Gareth Miles yn heneiddio - roedd yn 85 yn marw, ond fyddwn ni ddim a ddylem ni ddim anghofio ei fod o'n un o arloeswyr pennaf y chwyldro ddaru drawsnewid Cymru a statws y Gymraeg fel un o sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith ac wrth gwrs, wrth arwain at Senedd i Gymru.

Wedi ei fagu yn Waunfawr ger Caernarfon rhoddodd y gorau i'w swydd fel athro Saesneg a Ffrangeg, symud i Bontypridd a dod yn drefnydd UCAC. Wedyn cymryd y cam dewr o fynd yn sgwennwr llawn amser. Gyda'i ymrwymiad i Farcsiaeth a'r Mudiad Gwrth Apartheid tystiai ei fywyd i'w gred angerddol fod y frwydr dros Gymru a'r Gymraeg yn rhan o'r frwydr ryngwladol dros gyfiawnder.

Wrth gydymdeimlo'n ddwys a'i wraig Gina a'i ferched Elen, Branwen ac Eiry a'r teulu cofiwn am y digrifwch yn ogystal a'r difrifoldeb a nodweddai'r Cymro mawr Gareth Miles. Mae ein dyled yn fawr iddo'

**£10**

**Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.**

**Gofynnwn i chi fynd i wefan**
**tafodelai.cymru**
**a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Diolch i chi am eich cefnogaeth.**



Cychwyn addasu'r tirwedd ym Mharc Ynysangharad Pontypridd

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
27 Hydref 2023

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

***Argraffwyr:***
EVANPRINT
***www.evanprint.co.uk***



CYMRAEG
***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




# TONYREFAIL


Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com


**Brecwast Cymorth Cristnogol**
Diolch yn fawr iawn i aelodau Eglwys Dewi Sant am wneud brecwast blasus iawn fore Sul, 10 Fedi.





**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**
Cynhaliwyd digwyddiad cyntaf Pwyllgor Tonyrefail a Gilfach Goch nos Fawrth 19 Medi, sef noson Cyrri a Chwis. Diolch i bawb wnaeth gefnogi. Codon ni £640.



Mae nifer o weithgareddau ar y gweill. Croeso i bawb:
31 Hydref Parti Calan Gaeaf i blant yn y Ganolfan Hamdden, 5pm-6.30pm
11 Tachwedd Bore Coffi a Chrefftau Nadolig, Capel Salem, 11.30am
11 Tachwedd Noson Rasys Ceffylau, Ye Olde Ogmore, Gilfach Goch, 7pm
Cadwch y dyddiad: 2 Mawrth 2024 yng Nghlwb y Glowyr – Catsgam a Dim Problem


## CLWB Y DWRLYN

**Noson yng nghwmni'r awdur**
**Tim Hartley**
*8yh Nos Iau, 19 Hydref*
*Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch*

**Mynediad drwy Aelodaeth £15**
**neu £5 i ymwelwyr**
**Manylion oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**








## CYLCH CADWGAN

**Cyril Jones,**
**'Man Gwyn y Smotyn Du'**

**Nos Wener 6 Hydref**
8.00 o'r gloch
Y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf

---

**Prys Morgan,**
**'Atgofion o Bethlehem a Salem Gwaelod-y-garth'.**

**Nos Iau 26 Hydref**
7.30 o'r gloch
Bethlehem, Gwaelod-y-garth

*Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru*

# Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Haf 2023**
Mae wedi bod yn Haf prysur gyda nifer o ddigwyddiadau yn digwydd ar draws y sir. Diwedd mis Mehefin, cynhaliwyd rownd ranbarthol Cwis Mawr y Mentrau Iaith yn yr Hen Lyfrgell Porth gyda Siôn Tomos Owen yn gwis-feistr ac adloniant gan Gôr y Dysgwyr. Roedd hi'n noson fendigedig ac fe deithiodd y tîm buddugol i'r Eisteddfod ym Moduan i gynrychioli'r Sir yn y rownd genedlaethol.




Ym mis Gorffennaf, ymwelodd y Fenter a'r Urdd ag ysgolion uwchradd Cymraeg y sir i drafod sefydlu fforymau ieuenctid newydd. Rydym yn edrych ymlaen at weld y rhain yn datblygu dros y flwyddyn nesaf. Roeddem yn falch i fod yn rhan o Ŵyl Haf Garth Olwg hefyd ar yr 8fed o Orffennaf gan gynnig cyfleoedd i wneud crefftau a chael tro ar animeiddio. Llongyfarchiadau i dîm Canolfan Garth Olwg am drefnu digwyddiad gwych.

Yn ystod mis Awst, cynhaliwyd sesiynau di-ri yn ardal Rhondda, Cynon a Thaf. Roedd gyda ni sesiynau ioga i fabis gyda Pili Pala Yoga, sesiynau crefft, Lego ac animeiddio, gweithdai TikTok a GIFs gydag Ellis Lloyd Jones, sesiwn gemau i blant, sesiynau Cymraeg i rieni newydd gyda Babis Bach Babies a Sioe gyda Martyn Geraint! Diolch yn fawr i bawb wnaeth fynychu a chefnogi'r digwyddiadau.



Braf oedd cael gweithio mewn partneriaeth â Technocamps a Menter Caerdydd hefyd i drefnu Academi STEM ar gyfer disgyblion 10-13 oed ar gampws Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest a chael ein gwahodd i ddigwyddiadau torfol eraill



yn y sir. Roeddem yn falch i fod yn rhan o ddigwyddiadau Haf y Cyngor yn Aberpennar a digwyddiad Hwyl yr Haf Cyngor Tref Pontypridd gan gynnig gweithgareddau crefft i blant. Braint hefyd oedd cael gweithio mewn partneriaeth â Project Unity, Eglwys St Elvan's, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Rhondda Cynon Taf, YEPS, VEMS a sefydliadau cymunedol eraill ar Ŵyl Undod Aberdâr a chwifio'r faner am y Gymraeg. Nod y prosiect yw cynnal dathliad mis o gymuned yn nhref Aberdâr, gyda phwyslais mawr ar gydlyniant cymunedol.

**Sefydlu Grŵp Sgwrsio newydd yn y Rhondda Fach**
Mae'r Fenter wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Siop Fach Sero, siop a chaffi cynaliadwyedd dielw sydd wedi'i leoli yn hen adeilad Llyfrgell Glynrhedynog, i sefydlu bore coffi newydd yn y caffi. Mae'r grŵp yn cwrdd pob dydd Mawrth rhwng 10yb a 12yp i sgwrsio yn Gymraeg dros baned ac mae croeso mawr i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl ymuno. Mae rheolwr y siop hefyd yn dysgu Cymraeg ac yn awyddus i ymarfer ei Chymraeg gyda chwsmeriaid felly dewch draw am ddisgled a thamaid o deisen!



**Murlun Mawr Yr Hen Lyfrgell Porth**
Er gwaetha'r glaw a'r tywydd drwg, mae Siôn Tomos Owen wedi llwyddo gorffen




Y Murlun Mawr ar ochr adeilad Yr Hen Lyfrgell Porth! Mae ffrwydrad o liw yn eich croesawu chi wrth yrru mewn i'r Porth nawr ac mae'n werth ei weld! Dewch draw am baned ac i weld y murlun yn ei gyfanrwydd. Mae'r Fenter hefyd wedi rhedeg prosiect creu ffilm am y murlun gyda phlant Clwb Ieuenctid yr Hen Lyfrgell Porth felly drychwch mas amdano fe ar y cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf.

**Dyddiadau i'r Dyddiadur!**
**13.10.23 – Gig The Gentle Good + Y Dail – Clwb y Bont**
Mae'r Fenter yn gyffrous i fod yn rhan o daith PYST a Mentrau Iaith unwaith eto ym mis Hydref fydd yn gweld The Gentle Good a'r Dail yn perfformio yng Nghlwb Y Bont ar y 13eg o Hydref.
**28.10.23 – Noson Elvis i godi arian at yr Eisteddfod – Yr Hen Lyfrgell Porth**
Noson o adloniant a chwis gydag Elvis! Am ragor o wybodaeth neu i brynu tocyn e-bostiwch - gweithgareddau@menteriaith.cymru

Ydych chi'n trefnu digwyddiad neu weithgaredd Cymraeg yn sir hefyd? Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi! Gallwn ni helpu hysbysebu eich grwpiau neu ddigwyddiadau trwy ein gwefan a gwefannau cymdeithasol. Cwblhewch y ffurflen hysbysebu digwyddiad ar ein gwefan ac fe wnewn ni gynnwys eich digwyddiad yn ein e-chlysur misol ac ar wefannau'r Fenter! https://menteriaith.cymru/

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**
Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe
**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570




# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Croeso**
Estynnwn groeso twymgalon i John a Penny Oakley sydd wedi ymgartrefu ym Mhenywaun yn ystod y mis. Mae John yn enedigol o Lanelli a Penny o Bencoed. Mae'r ddau'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i ymarfer yr iaith. Croeso cynnes i chi eich dau i'r Efail Isaf.

**Llongyfarchiadau**
Mae gyda ni seren ym myd y ddawns yn y pentref. Llongyfarchiadau i Mali Fflur Lane, Heol y Parc ar ennill medal efydd yng nghystadleuaeth Gymnasteg Rythmig Prydain. Ardderchog iawn. Dal ati.



**Brysia Wella**
Dymunwn yn dda i Iwan West, Parc Nant Celyn sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty'n ddiweddar. Rydym yn falch i dy groesawu nôl i'r Oedfa yn y Tabernacl ar fore Sul.

**Cylch Cadwgan**
Cynhelir cyfarfod o Gylch Cadwgan yng Nghanolfan y Tabernacl nos Wener, Hydref 6ed am 8 o'r gloch yr hwyr. Testun sgwrs Y Prifardd Cyri Jones fydd "Man Gwyn y Smotyn Du".

**Ffair y Pentref**
Cynhaliwyd Ffair lwyddiannus iawn yn Neuadd y Pentref Dydd Sadwrn, Medi 9fed. Roedd y nifer o bobl a ymgasglodd yn y Neuadd a'r Parc yn ernes o'r ysbryd cymunedol cryf sydd yn bodoli yn y pentref. Roedd amrywiaeth o stondinau yn y Neuadd a chyfle i brynu bwyd blasus yn y Maes Parcio a'r Neuadd. Cafodd y plant gyfle i gael hwyl yn y Parc a'r llithren ddŵr yn profi'n boblogaidd iawn. Gwnaethpwyd elw o £1738 a fydd yn help mawr i atgyweirio a chynnal y Neuadd.

**Canu yn y Carpenters**
Cafwyd noson o hwyl yn nhafarn y Carpenters nos Sadwrn ar ôl Ffair y Pentref. Huw M Fu'n arwain y canu i gyfeiliant gitâr, telyn ac iwcaleli. Bu'n noson llawn hwyl ac fe gafwyd cyfle i bawb gefnogi'r Eisteddfod yn ariannol yn ystod y nos.

**Cefnogi Eisteddfod 2024**
Cynhaliwyd cyfarfod arall yn y Carpenters nos Iau Medi 6ed i gadarnhau trefniadau i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod. Mae amryw o weithgareddau ar y gweill. Byddwn yn brysur iawn am y misoedd nesaf yma, mae'n siŵr.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Garth Olwg sydd yn byw yn y pentref ar eu canlyniadau arbennig yn yr arholiadau TGAU a Lefel Uwch. Llongyfarchiadau hefyd i Morgan Gittins, Heol Tir Coch, sy'n mynychu Ysgol Gyfun Bryncelynnog ar ei ganlyniad arholiad TGAU arbennig yntau.

**Dechre ar gyfnod newydd**
Dymunwn yn dda i'r bobol ifanc o'r pentref sydd yn dechrau ar gyfnod newydd yn eu bywydau. Pob hwyl i Mabon Rhys sydd ar fin dechrau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Elen Griffiths a Beca Roberts yn mynd i Lundain i astudio a throi am Brifysgol Caerdydd fydd Gethin Rosie-Jones. Pob hwyl i chi i gyd. Mwynhewch eich cyfnod yn y Coleg ond cofiwch wneud ychydig o waith hefyd. Un arall o'r pentref sydd eisoes wedi newid byd yw Ioan Emanuel, Heol y Parc. Mae Ioan wedi derbyn cytundeb dwy flynedd gydag Academi tîm rygbi proffesiynol Caerfaddon. Pob hwyl iti, Ioan.

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau i Samantha Rosie, Heol y Ffynnon sydd wedi derbyn swydd gyda Chwmni Teledu Brown Bob yng Nghaerdydd.

**Antur**
Yn ddiweddar, cymerodd Morgan Gittins o Heol Tir Coch ran yng Ngorymdeithiau Nijmegen. Caiff y digwyddiad ei gynnal ym mis Gorffennaf bob blwyddyn a'r gofyniad caled dros y 4 diwrnod yw gorymdeithio rhwng 30 a 50km y dydd. Cafodd Morgan ei ddethol i fynychu o ganlyniad i'w ymrwymiad i Gadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol ac roedd yn un o blith nifer fach yn unig o'i sgwadron leol ym Mhontypridd i gael y cynnig. Ei obaith yw ymuno â'r Awyrlu Brenhinol wedi iddo sefyll ei arholiadau Safon Uwch a bydd yn cychwyn yn y chweched dosbarth ym mis Medi. Llongyfarchiadau mawr, Sarsiant Gittins, ar dy antur gofiadwy.

**Y TABERNACL**
**Merched y Tabernacl**
Daeth nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl ynghyd fore Gwener, Medi 8fed i'r Ganolfan i fwynhau paned a threfnu rhaglen y tymor. Ar gyfer ein cyfarfod cyntaf penderfynwyd ymuno gyda changen Merched y Wawr y Garth yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ddydd Merched 20fed Medi. Wil Morus Jones fydd yn ein tywys ar daith rithiol o amgylch Pontypridd.

Penderfynwyd cyflwyno can punt o elw ein raffl misol i Fanc Bwyd, Salem Tonteg, a chan punt i Gymdeithas Alzheimer's er cof am Shelagh Griffiths a oedd yn aelod ffyddlon o'r gymdeithas.

**Calendr 2024**
Mae calendr ar gyfer y flwyddyn nesaf 2024 wedi bod ar werth yn oedfaon y Tabernacl yn ystod mis Medi. Lluniau o waith cywrain o gwiltio a chroesbwyth, un ar gyfer pob mis, a welir yn y calendr.

Campweithiau Dilys Ann Richards o Benybont-ar-Ogwr yw'r lluniau. Yn anffodus cafodd Dilys ddiagnosis o Alzheimer's rhyw dair blynedd yn ôl a bellach mae'r edau a'r nodwydd yn segur. Penderfynodd ei gŵr, Y Parchedig Hywel Richards a'r teulu gynhyrchu'r calendr i nodi dawn ei wraig gan gyflwyno'r elw i gyd i Gymdeithas Alzheimer's. Pris y calendr yw £12 ac fe fydd Emlyn Davies yn falch i allu gwerthu copi i chi. Yn bersonol rwyf wrth fy modd gyda'r calendr yma gan mai croesbwyth yw un o'm diddordebau pennaf i ar hyn o bryd.

**Ffrydio Oedfaon**
Arfer a ddechreuwyd adeg cyfnod y Covid oedd ffrydio Oedfaon y Tabernacl i gartrefi'r aelodau. Erbyn hyn mae sustem mwy soffistigedig wedi ei sefydlu gyda help grant Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Mae'r ystafell a fu unwaith yn Ystafell y Diaconiaid, bellach wedi troi yn Ystafell Reoli. Mae criw o wirfoddolwyr medrus wrthi'n reolaidd yn meistroli'r dechnoleg pob Sul. Diolch o galon iddynt am eu gwaith ac mae'n deg eu henwi gan ei bod yn gweithio yn y dirgel y tu ôl i ddrws caeedig. Diolch felly i Emlyn Davies, Gwion Evans, Hefin Gruffydd, Eirian Hughes, Aled a Gareth Humphreys, Emlyn Jones a Geraint Rees.



Hefin yng nghadair y cyfarwyddwr

**Trefn y Oedfaon ar gyfer mis Hydref**
Hydref 1af Heulyn Rees a Gwestai
Hydref 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Hydref 15fed Oedfa Ddiolchgarwch dan ofal Eleri Mai a phlant yr Ysgol Sul
Hydref 22ain Alun Wyn Bevan
Hydref 29ain Y Parchedig Gethin Rhys.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Mainc i gofio Brian**
Os ewch i Barc y Dwrlyn, o flaen y Clwb, fe welwch fainc ddu sydd wedi ei gwneud o blastig a ailgylchwyd gan gwmni T.D.P. o Swydd Derby. Rhodd oddi wrth Enid Davies a'i theulu yw"r fainc er cof am Brian a fu'n gymaint rhan o fywyd y Clwb Rygbi. Mae na neges ar y fainc i gofio am Brian ond yn ddiweddar iawn gosodwyd plac metal â côd QR ar y cefn. Defnyddiwch eich ffôn symudol i gael hanes Brian. Dyma ffordd arbennig o gofio am berson neu achlysur.

**Dymuniadau Da**
Danfonwn ein dymuniadau gorau at Margaret Roberts yn dilyn y ddamwain i'w phigwrn.
Brysia wella Margaret.

**Y Sioe Arddwriaethol**
Cynhaliwyd y sioe arddwriaethol flynyddol ddechrau Medi ac unwaith eto roedd Neuadd y Pentref yn wledd o liw wrth i'r pentrefwyr arddangos cynnyrch eu gerddi yn flodau, llysiau a ffrwythau. Roedd hefyd adrannau celf, crefft a choginio yn ogystal ag adrannau i'r plant a'r ieuenctid. Roedd tarianau i'w hennill ymhob adran a bu cystadlu brwd i sicrhau llwyddiant y digwyddiad.
Efallai y flwyddyn nesaf y gellir perswadio mwy o ddarllenwyr Tafod Elái i ddangos eu doniau a mentro cystadlu!






**Alun Gruffudd - Ras Cefn y Ddraig**
Rhwng dydd Llun Medi 4ydd a dydd Sadwrn Medi 9fed eleni bu Alun Gruffudd, mab Gill a Peter Griffiths, Pentyrch yn rhedeg Ras Cefn y Ddraig. Man cychwyn y ras oedd Castell Conwy a Chastell Caerdydd oedd y llinell derfyn. Yr her oedd rhedeg pellter cyfatebol i 1.5 marathon bob dydd am y chwe diwrnod dros gopaon mynyddoedd mwyaf adnabyddus Cymru. Yn ôl trefnwyr y Ras dyma'r ras fynyddig galetaf a'r fwyaf heriol yn y byd - 380 cilometr, gan ddringo 17,000 metr o fewn y chwe diwrnod. Clustnodwyd mannau gwirio ar hyd y cwrs a rhaid oedd cyrraedd y rhain o fewn amser penodedig sef rhwng 06.00 a 22.00. Llwyddodd Alun i wneud hyn tan yn hwyr brynhawn Gwener pan gyrhaeddodd y man gwirio ychydig funudau'n hwyr. Pan ddigwyddai hyn rhoddwyd cyfle i'r rhedwyr redeg hanner y diwrnod canlynol ond penderfynodd Alun i wneud y diwrnod cyfan gan orffen yng Nghastell Caerdydd ar y nos Sadwrn olaf.
Bu teulu Alun yn monitro'i symudiadau arlein bob dydd ac maent yn falch dros ben ohono ac o'r hyn a gyflawnodd. Penderfynodd Alun ddefnyddio'r ras er mwyn codi arian at ymchwil M.S., rhywbeth sy'n agos at ei galon ef a'i deulu gan fod partner ei frawd yn dioddef o'r clefyd. Teimlai Alun fod yr her dros chwe diwrnod yn cydnabod yr her ddyddiol a wynebir gan berson â'r clefyd hwn. Llwyddodd i godi swm sylweddol hyd yn hyn at yr achos hwn ond bydd yn dal i groesawu cyfraniadau am ychydig eto ar ei dudalen 'JustGiving'.



**Clwb y Dwrlyn**
Lloyd Macey oedd fod i ddiddanu aelodau Clwb y Dwrlyn yng nghyfarfod cynta'r tymor ond oherwydd salwch methodd ddod ar y funud olaf. Ar fyr rybudd daeth Elli Glyn ir adwy ac achub y noson yn llwyddiannus iawn. Mae Elli sy'n gyn–ddisgybl o Ysgol y Fro ar ei hail flwyddyn yn astudio cyfansoddi yn y brifysgol yn Llundain ac fe gawsom ddigon o dystiolaeth o'i dawn wrth iddi ganu nifer o ganeuon gwreiddiol o'i gwaith ei hun yn ogystal â hen ffefrynnau gan Caryl. Llwyddodd i greu naws gynnes gyda'i llais hyfryd, ei phersonoliaeth hoffus a naturiol a'i dawn amlwg.
Cafodd gefnogaeth ei mam, Heini, fel "cynhyrchydd", a'r Neiniau, Teidiau a phob Mam-gu a Thad-cu yno yn cofio ei chyfraniad gwerthfawr ar y teledu yn diddori'r plant pan oeddent ar ddyletswydd gwarchod!
Mae'n diolch yn fawr fel cymdeithas i Elli am lenwi'r bwlch mor effeithiol ac roedd y gymeradwyaeth ar y diwedd yn dangos gwerthfawrogiad y gynulleidfa. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei gyrfa yn y dyfodol.

**Priodas Aur**
"Rhywbryd yn ystod mis Gorffennaf 1973, fe dderbyniais amlen trwy'r post gyda gwahoddiad i ymuno gyda Mr & Mrs I.O Lewis yn Eglwys Sant Tomos, Llandudoch, am 12:00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn y 1af o Fedi 1973, ar gyfer priodas eu merch, Joy, ag Eifion Glyn. Byddai brecwast priodas i ddilyn yng Ngwesty Llwyngwair, Trefdraeth.
Fe atebais yn gadarnhaol cyn y 10fed o Awst yn ôl y gofyn, ac fe fûm i (ac Ann) yn y briodas.
Mae gen i rhyw gof yn ogystal mai fi oedd y gwas priodas!
Os yw fy mathemateg yn gywir, mae hanner canrif union ers hynny, ac felly Penblwydd Priodas Aur hapus i'r ddau ohonynt.
A dyma'r gwahoddiad os nad ydych yn fy nghoelio!" Rhodri Jones.




**Derbyniad y Cyngor Cymuned**
Nos Lun cyntaf mis Medi cynhaliwyd Derbyniad Blynyddol Cyngor Cymuned Pentyrch yn y Clwb Rygbi. Yn ystod y noson diolchwyd i'r llu o wirfoddolwyr sy'n cynnal cymdeithasau'r ardal. Yn arbennig talwyd teyrnged i Stuart Thomas am ei waith fel cynghorydd ac am olygu Cwlwm Bro am 15 mlynedd.
Cafwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd Sara Pickard am ei gwaith fel cynghorydd ac am y cyfleoedd mae wedi cael wrth fod ar brofiad gwaith yn rhan o dîm newyddion ITV.



Rhoddodd Penri Williams bigion o'i gyfnod fel cynghorydd a bu'n sôn am ddathliadau canmlwyddiant y Cyngor Plwyf a sefydlwyd yn 1894. Trosglwyddwyd y cyfrifoldebau i Gyngor Cymuned Pentyrch yn 1974 a bydd cyfle'r flwyddyn nesaf i ddathlu 50 mlynedd o waith y cyngor a'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y gymuned.

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi John Alwyn Griffiths, 'meistr y nofel dditectif' sy newydd gyhoeddi ei ddeuddegfed gyfrol, *Dan y Dŵr*.**

**Beth yw eich gwaith?**
Rwyf wedi ymddeol yn llwyr ers dechrau'r ganrif er bod ysgrifennu llyfrau wedi cymryd drosodd rhan helaeth o'm mywyd i yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf.



**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Treuliais i 33 o flynyddoedd yn gwasanaethu yn Heddlu Gogledd Cymru ac yna ychydig dros flwyddyn yn gweithio fel ymchwilydd i gwmni o gyfreithwyr yn Lerpwl. Roedd y rhan fwyaf o fy ngyrfa yn y CID yn nifer o drefydd y gogledd, gan orffen y naw mlynedd olaf yn Bennaeth Adran Dwyll yn y pencadlys.

**O ble rydych chi'n dod?**
Cefais fy ngeni a'm magu ym Mangor lle roedd gan fy nhad fusnes fferyllydd ond mae'r mwyafrif o'r teulu o Fôn.

**Ble rydych chi'n byw nawr?**
Ychydig o amser wedi ymddeol symudais i Sir Fôn i fyw.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Naddo, dim o gwbl. Gadewais yr ysgol yn un ar bymtheg wedi llwyddo cael 5 lefel 'O' a dim awydd gen i fynd i brifysgol.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch?**
Pan oeddwn i'n blentyn, fy nhad cyn belled ag oedd addysg yn y cwestiwn. Gan fy mod o deulu eithaf mawr, roedd yna ewythrod dylanwadol hefyd. Wedi ymuno â'r heddlu roeddwn i yng nghwmni llawer un, ditectifs ran fwyaf, oedd yn hŷn a mwy profiadol na fi. Dysgais i lawer.
Wedi dechrau ysgrifennu yn y Gymraeg cefais fy nylanwadu'n gan y diweddar Cledwyn Jones fu'n aelod o Driawd y Coleg ac yn athro yn yr ysgol ramadeg cyn iddo ddarlithio yn y coleg. Yn awdur enwog ei hun, fo roddodd fi ar ben y ffordd.


**Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?**
Ysgrifennais nofelau yn Saesneg ar y cychwyn ond heb lwyddiant. Newidiais i'r Gymraeg, gan ysgrifennu atgofion digwyddiadau doniol a brofais drwy fy ngyrfa, sef 'Pleserau'r Plismon', llyfr a gyhoeddwyd yn 2011.
Wedi hynny ail-ysgrifennais y ddwy nofel Saesneg yn y Gymraeg, sef 'Dan Yr Wyneb' a 'Dan Ddylanwad.' Yna mae nofel wedi ei chyhoeddi blwyddyn a theitl pob un yn dechrau efo'r gair 'Dan'. Digwyddiad oedd hynny - roedd y gyntaf yn delio efo twyll a llygredd yn bodoli 'dan yr wyneb' mewn llywodraeth leol ddychmygol, a'r ail yn sôn am uwch dditectif nad oedd yn gallu gwneud ei waith oherwydd ei fod 'dan ddylanwad' person llygredig llawer cryfach. Pam ddim parhau efo'r 'Dan' felly, meddyliais?

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu *Dan y Dŵr*?**
Fy nod bob tro yw bod plot pob nofel yn delio â materion cyfredol, y math welwch chi yn y papurau newydd neu ar newyddion y dydd yn aml. Yn anffodus, mae yna fwy na digon o ddrygioni o'n cwmpas ni'n gyson. Mae rhai testunau wedi cynnwys twyll a llygredd yn y sector gyhoeddus, brawychiaeth, llofruddiaeth, cyffuriau, masnachu caethweision a byd yr asgell dde eithafol.

**Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?**
Y ddau mor bwysig â'i gilydd. Mae'n amlwg fod darllenwyr yn hoff o'r prif gymeriad, sef y Ditectif Sarjant Jeff Evans. Cofiwch fod gen i ddigon o brofiad yn gweithio gyda nifer fawr o dditectifs dros y blynyddoedd, ac er bod y cymeriad yma, yn wreiddiol, wedi ei seilio ar un person yn neilltuol, mae yna lawer wedi cyfrannu at ddatblygu ei bersonoliaeth dros y blynyddoedd. Efallai bod rhywfaint ohonof i ynddo.
Rhaid hefyd i'r plot fod yn un sy'n dal sylw'r darllenwr o'r dudalen gyntaf ymlaen.

**Beth oedd y broses cyn ac yn ystod sgrifennu? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?**
Mae pob blwyddyn yn eithaf tebyg. Er fy mod i'n agored bob amser i syniadau newydd, mi fyddaf i'n mynd ati i feddwl am blot yn ystod yr haf ac erbyn mis Medi, mi fyddaf wedi rhoi cynllun trwyadl ar bapur. Efallai bydd cynnwys hwnnw'n ddwsin o dudalennau neu fwy.
Mi fydda i'n dechrau ysgrifennu'r nofel ym mis Hydref, gan obeithio gorffen y drafft cyntaf erbyn diwedd Mawrth. Ceisiaf ysgrifennu o leiaf bum diwrnod yr wythnos, chwe awr bob dydd os yn bosib.
Y mwynhad mwyaf i mi ydi teipio'r frawddeg olaf a theimlo'r pleser fod nofel arall wedi ei gorffen - ac wedyn gobeithio bod y gwaith yn dderbyniol i'r cyhoeddwyr. Yr her fwyaf? Meddwl am yr un nesaf.

**Beth sy'n gwneud stori dda?**
Mynd â'r darllenwyr allan o'u byd diogel eu hunain ac, yn fy nofelau i, i ryw fyd peryglus na fyddent yn hoff o fod ynddo yn eu hunllef waethaf. Mae pobl yn fodlon gwneud hynny, gan wybod mai ffuglen ydi'r cwbl. Mae'r annisgwyl yn helpu a'r gwrthdaro rhwng y gwahanol gymeriadau, nid rhwng y drwg a'r da o angenrheidrwydd ond rhwng cydweithwyr




hefyd. Rhaid i'r gwahanol gymeriadau fod yn ddewr, hwyliog, difrif, ofnus, nerfus, yn mynegi pob
emosiwn a rhaid bod rhywbeth i'w edmygu rywsut neu'i gilydd yn y cymeriadau gwaethaf a mwyaf ofnadwy.

**Pam ydych chi mor gynhyrchiol?**
Mae'r daith ysgrifennu yn ddeuddeg mlynedd oed erbyn hyn. Wnes i erioed feddwl y byddai'r fath beth yn bod. I raddau, mae'r hyn ddechreuodd fel hobi wedi cymryd fy mywyd drosodd, ond rhaid cofio mai hobi ydi o o hyd.
Y pleser mwyaf sydd gen i ydi fy mod yn creu hanesion sy'n dod â mwynhad i bobl, a dwi wedi disgyn i ryw drefn erbyn hyn sy'n golygu bod angen i mi barhau i ysgrifennu nofel bob blwyddyn. Yn ôl pob golwg, mae rhai yn disgwyl i mi wneud! Dwi'n deall fod pobl wedi ffonio'r cyhoeddwyr cyn heddiw i ofyn pryd bydd y nofel nesaf yn cael ei chyhoeddi.

**Sut dechreuoch chi sgrifennu?**
Roedd yna ryw ysfa ynof am flynyddoedd i ysgrifennu nofel. Mi oeddwn yn ddigon siomedig na chefais i lwyddiant wrth ysgrifennu nofelau yn Saesneg a bron i mi roi'r ffidil yn y to. Gartref roeddem ni'n coginio'n gyson a rhoi gwahoddiad i gyfeillion ddod acw am fwyd yn ogystal â mynd i'w tai hwythau. Ar y nosweithiau hyn roedd mwy na digon o win yn cael ei yfed a'r tafod yn llacio. Mi fyddwn i wrth fy modd yn sôn am y digwyddiadau doniol yn yr heddlu a dywedodd rhywun y buasai'n syniad da eu hysgrifennu. Dyna wnes i, dyna sut daeth 'Pleserau'r Plismon' i olau dydd a dyna ddechrau ail yrfa annisgwyl.

**Pa mor bwysig yw lleoliad yn eich nofelau?**
Mae mwy nac un wedi ceisio dyfalu lleoliad Glan Morfa. Lle dychmygol ydi'r dref ond yn gymysgedd o'r trefydd lle bûm yn gweithio, Pwllheli, Conwy, Caernarfon, Caergybi ac yn y blaen. Rwy'n gallu uniaethu â'r trefydd a'u pobl, sy'n gymorth i mi greu'r cymeriadau fel Esmor, y cipar afon a chyfaill Jeff, a'i hysbysydd cywilyddus, Nansi'r Nos, ffefryn nifer o ddarllenwyr. (Peidiwch byth â gofyn i mi os oes ganddi gysylltiad â neb!)

Parhad tudalen 7>

## O DAN YR WYNEB (Parhad)

**Beth yw eich barn am fyd y nofel yng Nghymru?**
Mae yna lawer o awduron gwerth chweil o bob *genre* yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'r nifer yn tyfu. Oherwydd hyn, rwy'n credu bod yna fwy o ddarllen nofelau Cymraeg rŵan na fu erioed, ac mae hyn yn beth da er lles yr iaith. Does dim ond rhaid i chi ddarllen 'Clwb Darllen Cymraeg' ar Facebook er mwyn sylweddoli maint y diddordeb.

**Pwy yw eich hoff nofelydd? Pam?**
Does gen i ddim hoff nofelydd yn y Gymraeg, a fyswn i ddim yn hoffi enwi un rhag ofn i mi bechu'r lleill. Yn y Saesneg rwyf wedi bod yn hoff o ddarllen llyfrau Wilbur Smith, James Patterson, Sir Ranulph Fiennes, Lee Childs a Norman Maclean. Dyma'r math o lyfrau sy'n gwneud i mi droi'r tudalennau.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Os ydi'r awydd yna, ewch amdani. Cynlluniwch yn ofalus a gwnewch eich ymchwil yn drwyadl o flaen llaw. Gwnewch nodyn ar unwaith pan mae syniadau yn dod i'ch meddwl. Cyfeiriwch at y cynllun yn ddyddiol ond peidiwch â bod ofn newid neu ychwanegu. Ysgrifennwch ar y cyfrifiadur yn syth. Mae o yna wedyn ym mol y cyfrifiadur, ac yn tyfu bob dydd, ac mae'n ddigon hawdd cywiro neu ail feddwl.
Darllenwch ddigon a gofynnwch am gyngor - awdur, athro neu rywun profiadol. Edrychwch beth ddigwyddodd i mi! Peidiwch â bod yn ddigalon os ydi eich ymdrechion yn cael eu gwrthod ar y dechrau. Efallai bod llwyddiant rownd y gornel.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
Dal ati!

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Salad cimwch i gychwyn, stêc cig carw yn brif gwrs a phwdin bara menyn da i orffen.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Dim cymaint o gerdded mynyddoedd a hela, mae gen i ofn, gan fy mod i'n mynd yn hynach bob dydd. Er hynny, mae cerdded y ci, Macsen, yn bleser dyddiol. Yn yr haf rwy'n hoff o dyfu llysiau yn yr ardd, pysgota pluan a gwneud plu fy hun. Byddaf yn gwrando ar gerddoriaeth glasurol yn aml. Yn y gaeaf mae ysgrifennu yn cymryd drosodd.

**Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845279103&tsid=3#top**

***Dan y Dŵr*, Gwasg Carreg Gwalch, £8.99**

## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Hyfryd croesawu Meithrin newydd i'r ysgol.**
Byddwn yn cymryd Cyn-Feithrin mis Ionawr ac Ebrill 2024 hefyd.









**Blwyddyn 6 yn barod i gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd.**



**Bl. 1 a 2 yn mwynhau Mercher Mwdlyd.**







**Diolch i PC Jenkins am ddod i drafod pobl yn y gymuned sy'n ein helpu.** Thema'r tymor hwn yw Pobl Sy'n Ein Helpu felly os hoffech ddod i drafod eich swydd cysylltwch â'r ysgol.





## Ysgol Dolau

Mae plant y Feithrin a Nursery wedi setlo'n hyfryd ac yn mwynhau. Da iawn chi blant!







Cyn ddisgybl Finlay Walker yn cynrychioli Cymru o dan 16 yn rygbi'r gynghrair. Rydym yn falch iawn ohono hefyd!



Mae Class 3 a 4 wedi bod ar daith i'r Coop i brynu bwydydd i wneud brechdan iachus a blasus.











Mae Blwyddyn 5 a 6 yn joio mas draw yn Langrannog!












Cyn-ddisgybl Elliott Donovan Davies yn cyflwyno ei fest rhwyfo Prydain Fawr i Mr Evans. Rydym yn falch iawn ohono!






# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Noson codi arian Creigiau**

Dewch i gefnogi ein noson Owain Glyndwr i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024.

Noson i'r teulu cyfan fydd hi gyda Geraint Thomas o Creigiau yn sôn am hanes Owain Glyndwr. Dros y cyfnod clo bu'n creu gêm Owain Glyndwr a bydd yn dangos i ni sut i chwarae'r gêm a bydd modd chwarae'r gêm yn ystod y noson. Bydd bar ar gael ar y noson a raffl.

Nos Sadwrn Tachwedd 18fed yw'r dyddiad a £10 yw'r gost. Cynhelir y noson yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau. Ceir tocynnau gan Teleri Jones, Ann Angell, Nia Parker a Bethan Herbert. Neu e-bostiwch telerij@yahoo.com

Dewch yn llu i gefnogi'r Eisteddfod!

**Clwb Gwawr Crotesi Creigiau**

Mae croeso i bawb ymuno gyda ni. Rydym yn cwrdd yn fisol i gymdeithasu. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn chwarae Petanque, mynd am dro, mynd allan am fwyd, mynd i'r theatr, pilates a llawer mwy. Bydd noson fawr i godi arian arian i Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ar Dachwedd 18 yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau

Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda telerij@yahoo.com

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlad mawr i Claire Westlake o Bentyrch. Bu farw ei gŵr Ray yn ystod mis Awst eleni yn dilyn salwch. Mae Claire yn athrawes yn ysgol Creigiau ac mae'n siŵr eich bod wedi gweld y ddau yn chwarae'r Saxaphone yn y Carnifal ac efallai ym Mae Caerdydd.

Ar nodyn hapusach pob lwc i Iestyn ei mab sydd wedi dechrau pennod newydd yn y Brifysgol yn Llundain.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r Athro Delme Bowen lawr yng Nglan y Fferi, Sir Gâr. Ar Awst y cyntaf bu farw ei gymar, Pam. Bu Delme a Pam yn gymdogion da i lawer yma yn y Creigiau am dros ugain mlynedd. Yn anfon ein cofion, Delme.

**Ei anrhydeddu gyda'r Wisg Werdd!**

Llongyfarchiadau mawr - i Huw Llywelyn Roberts ar lwyddo yn ei Arholiadau mynediad i Orsedd y Beirdd! Cafodd Huw ei urddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni, ar y bore Llun cyntaf. Balch iawn ohonot, Huw!

**Cricedwr o fri!**

Mae campau Martin Powell ar y Maes Criced yn hen gyfarwydd i ni ddarllenwyr Tafod Elái - ond mae'r stori nesa yma'n anhygoel! Ar hyn o bryd mae Martin yn aelod o dîm Criced Hŷn Cymru ac wedi cael ei ddewis eleni yn aelod o'r sgwad bydd yn cynrychioli Cymru yng Nghwpan y Byd Cricedwyr Hŷn yn Chennai, India, mis Mawrth 2024. Llongyfarchiadau mawr, Martin a phob lwc allan yn yr India blwyddyn nesa!

**Dathlu Priodas Arian!**

Llongyfarchiadau mawr - Dr Emma a Simon Thomas-Jones ar ddathlu pum mlynedd ar hugain o briodas! Priodwyd y ddau yn Eglwys St. Anne's, Cwmffrwd, Caerfyrddin ar y 5ed o Fedi, 1998, ac fe gynhaliwyd y wledd briodas yn Pant yr Athro, Mansion House, Llansteffan. Mae'r ddau newydd ddathlu allan ym Mhortiwgal. Pob bendith eich dau ac ymlaen at y garreg filltir nesa!



**Disgyblion disglair Creigiau/ Plasmawr!**

Er gwaetha'r holl anawsterau maent wedi eu profi dros y blynyddoedd anodd diwetha yma mae ein pobol ifanc yn dal i ragori - yn dal i lwyddo! A llawer o'r diolch yn eiddo i'r athrawon cydwybodol, cefnogol sy wastad wedi bod yno'n ysbrydoli. Felly, llongyfarchiadau mawr iawn a phob dymuniad da i Cai Landon sydd bellach yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Bryste yn dilyn cwrs Astroffiseg; Aled Crane sydd hefyd wedi cychwyn ar ei gwrs Astudiaethau Meddygol ym Mhrifysgol De Cymru; Tom Roberts sydd ar ei ffordd i Brifysgol Caerdydd i astudio Ffarmacoleg; a Iestyn Ellis fydd yn dilyn cwrs gradd Peirianneg Fecanyddol ym Mhrifysgol Imperial, Llundain! Dim ond y bechgyn hyd yma! Dal i aros am lwyddiannau'r merched! Helpwch fi, plîs! Fe ddônt! Mwynhewch eich dyddiau prifysgol! Cofiwch gadw cydbwysedd rhwng gweithio a'r cymdeithasu! Edrychwn ymlaen at ddilyn eich hanesion!

**BLE?**

Mae'r cyfnod dwethaf wedi bod yn brysur iawn i Iestyn Gwyn Jones gyda pherfformio gyda'r band BLE? mewn llwyth o wyliau cerddoriaeth a gigs dros yr haf. Bu'n perfformio hyd at 4 o gigs mewn deuddydd dros benwythnos Tafwyl a wir wedi mwynhau cael cyfle i fynd nôl i'r stiwdio i recordio gyda'r band a'r cynhyrchydd Samiwel Humphreys yn ddiweddar.

Gyda'r haf yn dirwyn i ben, does dim stop ar y gwaith iddo. Mae'r band BLE? yn rhyddhau eu hail sengl, 'Rhedeg' ar y 3ydd o Dachwedd eleni ag yn chwarae gig yn Tŷ Tawe gyda Gai Toms ym mis Hydref. Y gobaith hefyd yw cael ambell fideo cerddorol allan dros y misoedd nesaf felly cadwch lygad allan ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fydd Iestyn hefyd yn perfformio yng Nghlwb y Bont yn cefnogi Caryl Parry Jones i ddathlu bod y Clwb wedi bod ar agor ers **40** mlynedd ar y 30ain o Fedi. Set ychydig ysgafnach i'r arfer gan chwarae nifer o ganeuon newydd acwstig a rhai nad sydd wedi eu perfformio yn gyhoeddus ganddo o'r blaen.




Mae Iestyn a'r Band wrthi hefyd yn recordio EP o ganeuon Nadolig Cymraeg i'w rhyddhau ar blatfformau ffrydio yn gynnar mis Rhagfyr cyn teithio de Cymru i berfformio cyngherddau a gigs dros gyfnod yr ŵyl eleni. Dw i'n siŵr fydd mwy o wybodaeth am y Nadolig yn cael ei rannu yn fuan iawn.



# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

**Wynne Evans a Proust**


Fel llawer ohonoch, dilynais daith Wynne Evans drwy Master Chef o'r dechrau i'r diwedd ac roeddwn yn falch iawn ei weld yn derbyn y tlws eleni.

Bu'n hyrwyddo cynnyrch Cymreig ac fe ddefnyddiodd ei ddawn goginiol i greu rhai seigiau gwirioneddol ddychmygus. Nid oedd pob un yn llwyddiant fel y gwelsom pan ddewisodd wneud Boudin Blanc; cyfaddefodd nad dyna oedd ei "awr orau" ond, diolch byth, ni chollodd ei le yn y rowndiau terfynol. Roeddwn i wrth fy modd gyda'i fersiwn o ffagots a phys a'i wrogaeth i Stryd Caroline. Ysbrydolwyd y ddwy fwydlen hyn gan atgofion personol, teyrnged i'w dad-cu o Wlad Belg a thaith i lawr 'Chippy Alley'.






Pam mae rhai bwydydd yn ein hatgoffa o brofiadau'r gorffennol?



Mae ymchwil yn dangos cysylltiadau rhwng ein hymennydd a sut rydym yn adnabod ac yn cofio rhai bwydydd. Mae'r hippocampus, sydd wedi'i leoli yn ein hymennydd, yn chwarae rhan allweddol yn y cof, yn enwedig atgofion hirdymor. Mae ganddo hefyd berthynas cryf â rhannau o'n hymennydd sy'n gysylltiedig ag emosiynau ac arogleuon â'n profiadau personol gyda bwyd. Mae'r profiad hwn wedi'i alw'n '*The Proust Phenomenon'*. Roedd Marcel Proust, nofelydd Ffrengig a chritig llenyddol, yn cofio'n fyw am ei orffennol ar ôl iddo drochi bisged Madeleine mewn te. Sbardunodd yr arogl a'r blas lif o atgofion o'i blentyndod a'i gysylltu ag eiliad o ddegawdau yn ôl.



Dangosodd un astudiaeth ddiweddar o 2,000 o oedolion mai'r bwydydd sydd yn ei atgoffa o'u plentyndod yw jeli, wyau wedi'u berwi gyda milwyr tost a bysedd pysgod. Mae cinio rhost cartref, hufen iâ, rhiwbob a chwstard a phopiau iâ (ice pops) hefyd yn ffefrynnau hiraethus. Datgelwyd hefyd fod ffefrynnau plentyndod sy'n dwyn atgofion hapus i gof (y Prouse Phenomenon) yn cael eu bwyta o leiaf unwaith yr wythnos. Dywedodd y cyfranogwyr fod blasau clasurol yn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn helpu i leihau teimladau o bryder.

Nid yw'n syndod bod gwerthiant bwydydd cysur hiraethus wedi gweld ffyniant yn ystod y pandemig wrth i siopwyr droi at eu cypyrddau bwyd a ryseitiau am gysur. Gwelwyd cynnydd sylweddol yng ngwerthiant pwdin reis, jeli, powdr cwstard a chigoedd tun yn ystod y cyfnod hwn. Roedd aros gartref hefyd yn golygu bod gan bob un ohonom fwy o amser i'w lenwi a throdd llawer at bobi i wneud danteithion i'r teulu, chymdogion a gweithwyr allweddol. Hefyd, gwelwyd cynnydd mawr mewn chwiliadau ar y rhyngrwyd am ryseitiau ar gyfer bwydydd cysur o'r gorffennol. Y rysáit y chwiliwyd amdano fwyaf yn ystod y cyfnod oedd am fara banana. Roedd chwiliadau ryseitiau poblogaidd eraill yn cynnwys cacen sbwng Victoria, cacen bîn-afal wyneb i waered, pastai banoffee, pwdin bara menyn, cacen gaws, brownis a fflapjacs.

Pan fyddwn yn sôn am 'blas', mewn gwirionedd rydym yn trafod y cyfuniad o ddau synnwyr: blas ac arogl (meddyliwch am yr arbrawf o drio 'blasu' winwns tra'n pinsio'ch trwyn). Mae ein synnwyr arogli, yn arbennig, yn chwarae rhan enfawr mewn hel atgofion, gan ei fod yn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r system limbig - y rhan o'r ymennydd sy'n delio â chof ac emosiwn.

Dywed yr arbenigwr seicoleg Jo Hemmings y gall profiadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â phryd, bwyd neu flas penodol ysgogi teimladau cryf o gysur, diogelwch a hapusrwydd. "Wrth inni heneiddio, mae'r teimlad o hiraeth yn ein galluogi i gael ein cludo i atgofion llawen ein plentyndod. Mae synhwyrau yn sbarduno adwaith cemegol yn ein hymennydd….. Mae blas ac arogl ymhlith y sbardunau hiraeth cryfaf oll, yn ein hatgoffa ar unwaith pan oeddem yn teimlo'n hapus ac yn gysurus."

Yn ôl CareUK gall gweithgareddau hel atgofion fod yn hynod fuddiol i bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw gyda dementia, gan fod cof hirdymor fel arfer yn parhau'n gryfach na'r tymor byr. Mae tynnu ar atgofion cryf yn helpu i roi hwb i hyder ac yn rhoi cyfle i ail-fyw amserau hapus, a all ysgogi sgwrs ac ennyn yr emosiynau cysylltiedig. Mae un o gogyddion Care UK wedi helpu i greu bwydlen flasu hiraethus, sy'n cynnwys bwydydd eiconig o'r 70 mlynedd diwethaf, ac fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio fel arf synhwyraidd i annog pobl hŷn i hel atgofion.

Mae taith i lawr y 'Lôn Atgofion' o fwydydd yn fy atgoffa o'r bwydydd roeddwn i'n eu caru a'u casáu fel plentyn. Y pryd gwaethaf yn yr ysgol gynradd oedd diwrnod pastai caws (roeddwn yn casáu caws bryd hynny). Ni fydd fy ngŵr byth yn cael cawl tomato gan ei fod yn ei atgoffa o gael y cawl hwn gan ei fam pan oedd yn dioddef o dwymyn y chwarennau. Ni ellir byth ail-greu fy atgof annwyl o dostio bara wrth y tân gyda fy nain, a'i fwyta â menyn hallt a wnaed ar y fferm gan fy modryb. Mae taenu'r gwaddod brown o waelod y diferion porc a brynwyd ym Marchnad Brynmawr yn ennyn yr un teimlad i fy ngŵr.





Yn olaf, yn ôl at Wynne Evans. Gallaf yn awr honni fy mod wedi cael fy ffilmio ar gyfer rhaglen ar S4C yn paratoi Cacennau Guinness yn fy nghegin gydag enillydd MasterChef; atgofion melys!



## Menter Caerdydd

## Prysurdeb yr hydref

Mae'r tymor newydd wedi dechrau a nifer fawr ohonoch wedi manteisio ar y cyfle i gofrestru ar gyfer e i'n sesiynau ioga, pilates, Sbaeneg a Tai Chi ymhlith pethau eraill. Mae'r Gerddorfa Ukulele wrthi'n ymarfer ar gyfer digwyddiadau amrywiol ac erbyn i chi ddarllen y golofn hon byddan nhw wedi diddanu rhedwyr a thorf Hanner Marathon Caerdydd ar 1 Hydref.

Mae mis Hydref yn fis prysur i'r ddwy Fenter gyda chyrsiau newydd, gigs a gweithgareddau hanner tymor yn llenwi'r amserlen. Felly, beth sydd ar y gweill dros yr wythnosau nesaf?

**Cyrsiau newydd:**
**Ar drywydd y tywysogion: o Lywelyn Fawr i Owain Glyndŵr** - Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer ein cwrs newydd ar Zoom sy'n rhedeg am 3 wythnos o nos Lun, 2 Hydref (19:30-20:30). Cofiwch fod recordiau ar gael os byddwch yn colli sesiwn. (£10)

**Gwnïo a Thecstilau** - Mae cwrs newydd 10 wythnos o hyd yn dechrau nos Lun, 2 Hydref yn yr Atrium, Prifysgol De Cymru. Darperir offer a defnyddiau. (£80)

**Taclo Technoleg** - Nabod rhywun sydd angen ychydig o gymorth ar eu gliniadur neu dabled? Cofiwch am ein cwrs newydd ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol yn Hyb Rhiwbeina. (Dechrau dydd Mercher, 4 Hydref, 12:00-13:00 am 3 wythnos - £10)

**Cynganeddu** – Bydd y dosbarth profiadol yn cwrdd yn Chapter bob yn ail wythnos o nos Fawrth, 10 Hydref yng nghwmni Aron Pritchard. Y Prifardd Gruffudd Owen fydd yn arwain y dosbarth i ddechreuwyr fydd hefyd yn cwrdd bob yn ail wythnos. Bydd y dechreuwyr yn cwrdd yn Chapter gyda chyfle hefyd i ymuno ar Zoom. (£78 am 10 wythnos)

**Gosod Blodau** – Dewch i ddysgu mwy am dyfu, gosod a threfnu blodau'r ardd yn Rhandiroedd Pontcanna yng nghwmni Siwan a James Matthews. (Iau, 5 Hydref, 15:00 - £10)

**Ymweliad: Senedd Cymru** – Taith dywys rad ac am ddim o amgylch adeilad y Senedd ar fore Iau, 19 Hydref. Niferoedd yn gyfyngedig felly cofiwch gofrestru! Bydd taith dywys i orielau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ym mis Tachwedd a Chwrt Insole ym mis Rhagfyr.

**Sgwrs y Mis –** Dr Haydn E. Edwards fydd yn ymuno â ni nos Lun, 23 Hydref i gyflwyno hanes yr arloeswr a chymwynaswr Griffith Davies FRS. Mae'n debyg mai tri mis yn unig o addysg ffurfiol a dderbyniodd Davies, ond sylweddolwyd fod ganddo allu rhyfeddol mewn mathemateg. Ymunwch â ni ar Zoom i glywed ei stori ryfeddol. (Am ddim)

**Mewn Tiwn** – Y delynores Bethan Semmens o Live Music Now fydd ein gwestai ar ddydd Llun olaf mis Hydref. Gwarchod yr wyrion yn ystod hanner tymor? Dim problem, dewch â nhw i'r gyngerdd! (Canolfan Beulah, Llun 30 Hydref 11:30-12:30 – am ddim)

**GIGS –** Bydd **Gareth Bonello: The Gentle Good** yn perfformio yn y Memo, y Barri nos Sadwrn, 14 Hydref fel rhan o daith Mentrau Iaith Cymru/Pyst. Mae tocynnau ar gael o wefan y Memo am £10/£8. Bydd Parisa Fouladi hefyd yn perfformio ar y noson. Cofiwch hefyd am gig Pedair (tafarn y Duke of Wellington, y Bont-faen ar 1 Rhagfyr) a Mynediad am Ddim yn y Memo ar 27 Ionawr.

**Clwb Ieuenctid CFTi** – Oes gennych chi blant neu wyrion ym mlynyddoedd 7-10? Mae'r Clwb Ieuenctid yn rhedeg bob nos Fercher hyd hanner tymor rhwng 16:30 a 18:30 yn Ystafell Lles Coleg Caerdydd a'r Fro ar Ffordd Dumballs. Cyfle i sgwrsio ac ymlacio yn y Gymraeg. Am fwy o wybodaeth: gruff@mentercaerdydd.cymru

**Gweithgareddau Gwyliau** – Cofiwch hefyd am ein sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, a'r cynllun Gofal fydd yn dychwelyd yn hanner tymor ar gyfer plant o'r dosbarth derbyn hyd flwyddyn 6.

Bydd ein sesiynau **Amser Stori** a **Deffro'r Synhwyrau** hefyd yn parhau drwy gydol tymor yr hydref mewn lleoliadau amrywiol. Yn ôl yr arfer, ni chynhelir sesiynau yn ystod gwyliau hanner tymor.

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888**



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

***Trist iawn ydi cofnodi marwolaeth ein cyn-weinidog, y Parchedig R Alun Evans, ar yr 20fed o Awst 2023.***

***Ar ran Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a galar.***

***Mae Detholiad o'r teyrngedau a dalwyd ar ddydd ei angladd, y 4ydd o Fedi, yn y Capel a'r Amlosgfa, yn ymddangos mewn erthygl ar wahân yn y rhifyn hwn.***

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**
**Mis Hydref 2023:**
1af Hydref - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8fed Hydref – Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul
15fed Hydref – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
22ain Hydref – Oedfa Ardal Aelodau Pentyrch
29ain Hydref – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams (dim Ysgol Sul)




Dyma frawddeg glo'r erthygl yn rhifyn mis Medi o "Tafod Elai":-

*Dilynwyd y Parchedig Rhys Tudur gan y Parchedig Thomas James Davies – yr unigryw TJ – yn 1985 - ond stori arall yw honno!*

Cafodd T J ei eni yn 1919 yn Sarnau Fawr, Llanfihangel-y-creuddyn ger Aberystwyth, yr hynaf o saith o blant.

Derbyniodd ei addysg yn ysgol y pentref, Coleg Trefeca ger Aberhonddu a Choleg y Brifysgol, Aberystwyth, gan raddio yn y Celfyddydau ac mewn Diwinyddiaeth.

Yn 1947 dechreuodd ei yrfa fel gweinidog yng Nghapel y Betws, Rhydaman.

Treuliodd 1959 yn yr Union Theological Seminary yn Efrog Newydd ac ennill gradd STM (Master of Sacred Theology).

Yn 1963 ymunodd â staff Cymdeithas y Beiblau.

Dywedodd un o'i gyfeillion agos, y Parchedig W J Edwards, ei fod yn ddyn oedd wedi dysgu llawer o'i brofiadau.

"*Roedd e wedi datblygu'n weinidog hollol wahanol i weinidogion eraill y cyfnod, yn anghyfundebol.*

*"Dyn â gweledigaeth oedd e, yn mentro o hyd. Fe fyddwn i'n ei alw'n arloeswr mawr.*"

[Rhan o gofnod oddiar safle Newyddion BBC Cymru yn 2007]

---oooOOOooo---

A dyma'n stori ni ym Methlehem, Gwaelod-y-garth:-

Sefydlwyd TJ yn Weinidog rhan-amser ar bnawn Sul yr 21ain o Ebrill 1985.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Sefydlu am 2:00 p.m. gyda'r Parchedig Ifor Rees yn Llywyddu, a'r Parchedig Derwyn Morris Jones, Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar y pryd, a gofal y sefydlu.

Ond roedd un dasg ychwanegol i'w chyflawni, a dyma sut y bu i golofnydd "Tafod Elái" rhifyn mis Mai 1985 nodi hynny:-

*"…a chyflwynwyd TJ ar ran y Presbyteriaid i frawdoliaeth Annibynia gan y Parchedig D H Owen. Cyn diwedd y cyfarfod roedd y gynulleidfa i gyd yn wybyddus o natur wardrob TJ, yn ogystal â thyfiant ei datws a stad ei ardd, a chafwyd un gyfrinach bellach amdano gan y Parchedig Eirian Rees ar ran Cyfundeb Dwyrain Morgannwg. A wyddech chi mai fel 'Club Owner' yr adnabyddir ef ar gardyn prynu mewn warws yng Nghaerdydd…?*

*…Cynhaliwyd cyfarfod yr hwyr dan lywyddiaeth y Gweinidog, a gwahoddwyd y Parchedig Cynwil Williams, Heol y Crwys, i draddodi'r bregeth.*

*Rhwng y ddwy oedfa, roedd te croeso i'w gael yn y festri, ac am yn ail a llymaid o de a bara menyn cafwyd cyfarchion ar ran merched Bethlehem gan Eleri Jones, a sgwrs hamddenol gan Mari Jams, Llangeitho ar ran pobl Sir Aberteifi., ie, y cwbl ohonynt…*

(*Ac os mai mewn ffigyrau moel mae mesur llwyddiant mewn unrhyw faes pa well ystadegau na'r canlynol i weinidog ar ei Sul cyntaf wedi'r sefydlu – bedyddio pump o fabanod, a phump arall y Sul canlynol, a derbyn saith o aelodau newydd i'w eglwys!")*

Mae stori'r "alwad" i Fethlehem yn rhan o chwedloniaeth y lle erbyn hyn, ond mae hi'n werth ei hailadrodd (a dyma un fersiwn o'r stori!):-

"*Roeddwn newydd ymgymryd â'm swyddogaeth o ofalu am y "llyfr bach" ym Methlehem yn Hydref 1984, a bylchau i'w llenwi rhwng hynny a diwedd y flwyddyn.*

*Penderfynais fynd ar ofyn hwn a llall ac arall er mwyn rhoi trefn ar yr oedfaon, a ffoniais rif TJ i weld a oedd Sul gwag ganddo.*

*Siarsiais ar y ffon, jest i greu argraff, i mi fod yn gwrando arno'n pregethu yng Nghapel Pen-rhiw yn Sain Ffagan ychydig wythnosau ynghynt.*

*Ar Ragfyr yr 16eg 1984, cadwodd oed yn ôl yr addewid, a chawsom chwip o bregeth ganddo (er nad ydw i'n cofio fawr ddim ohoni heddiw, heblaw am y sôn am y llygod yn yr organ).*

*Ar fin y ffordd y tu allan i'r capel wedi'r oedfa fe'i holwyd gan rywun/rhywrai-*

*"Pam na ddowch* ***chi*** *atom ni TJ"*

*Yr ateb a gafwyd oedd,*

*"Sneb wedi gofyn i mi"*

*Fe'i gwahoddwyd yn y fan a'r lle, ac mae'r gweddill yn hanes ………….."*

Gweinidogaeth o gariad a chonsyrn a gafwyd a Bethlehem hithau yn tyfu o ran niferoedd a dealltwriaeth.

Cyfnod pryd y cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg newydd ym 1988, a dyma gofnod o rifyn mis Ebrill 1988 (rhifyn 26) o "Tafod Elái":-

*"Ar fore Sul Mawrth 6ed perfformiwyd pasiant "Camp y Campau" a ysgrifennwyd gan Emyr Edwards i ddathlu pedwar can mlwyddiant Beibl William Morgan.*

*Roedd cast o 25 a chôr yn portreadu cyfres o olygfeydd yn olrhain hanes William Morgan o'i enedigaeth hyd at gyflawni ei gamp o gyfieithu'r Beibl.*

*Ar ddiwedd y gwasanaeth rhannwyd 102 o Feiblau ymysg plant a phobl ifanc y capel."*

Cyfnod lle bu'n bedyddio'n helaeth a'r direidi'n cael ei gofnodi fel hyn yn y gwasanaeth adfent a ddarlledwyd gan Radio Cymru yng nghyfnod y Nadolig 1995:-

*"Croeso i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, yn falch eich bod wedi galw heibio.*

*Rydych wedi galw ar adeg brysur. Rydym yng nghanol cyfres o fedyddiadau. Un bythefnos yn ôl, tri heddi ac un Sul nesa. Pump i gyd.*

*Fe welwch ei bod yn dymor wyna yma, a chredwch fi, does gan yr wyna un dim i'w wneud ag hwsmonaeth y bugail !"*

Roedd cynnwys y cylchlythyr blynyddol i'r aelodau yn bregeth ynddynt eu hunain.

Yn un,

*"Sylwi fod hwn neu hon yn absennol, ar dro am fwy nag un Sul. Chredwch chi fyth fel mae'ch presenoldeb yn gysur, yn ysbrydoliaeth, yn orfoledd. Teulu yw'r eglwys a phan fo un aelod o'r teulu ar gyfeiliorn, am ba reswm bynnag, yna ma siom yng nghalon yr aelwyd. Sedd wag yn ddolur. A beth am y deigryn yn llygaid y Gwaredwr? Un arall o'r disgyblion yn cefnu."*

Mewn un arall,

*"Un o'r golygfeydd hyfryta' posibl yw gweld cynifer o blant yn deud eu hadnodau. Sylwch fy mod i'n dweud, ac nid yn darllen. Oherwydd pwysig yw dysgu ar y co'. Try'n waddol gwerthfawr yn y man... Efallai fod cymaint o blant yn chwanegu at lefel y decibels yn yr oedfa! Dyna fe, does dim sŵn mewn mynwent, ac ni fynnai neb ohonom fod mewn lle felly. Ma cryn wahaniaeth rhwng Bethlehem, Gwaelod-y-garth ar fore Sul a mynwent, fel y gwŷr y mwyafrif ohonoch, a thestun diolch yw hynny."*

Eto mewn llythyr arall,

*"Fe ddywedodd rhywun am waith llwyfan …. Does dim rhannau bach, dim ond actorion bach. A gellir addasu hwnna at eglwys. Does dim rhannau bach. Nid oes raddau mewn aelodaeth eglwys. Teulu ydym a phob un yn cyfri. Pob un yn wahanol, bid siŵr, a phob un a'i gyfraniad unigryw ei hun. Y cwestiwn sy'n codi yw, Odi pob un yn chware ei ran ?"*

A chware'n rhan fu raid inni.

Llwyfannwyd dramâu R G Berry ar achlysur dathlu 50 mlynedd ei farwolaeth yn sgil ei frwdfrydedd.

Parhad tudalen 13 >

# Bethlehem (Parhad)

Ymwelwyd â Phantycelyn a Threfeca yn ei gwmni a chafodd Slimbridge a Thraeth Aberafan ein croesawu ar drip Ysgol Sul yn sgil ei ddymuniad.

Pan yn 70 mlwydd oed, cyflwynwyd cyfres o englynion iddo a baratowyd ar y cyd gan y dosbarth cynganeddu a oedd yn cwrdd yn y Capel, a dyma un ohonynt:–

I T J:
Gwywo pan ddêl y gaea' – yw y drefn,
Ond wir ef flodeua;
Ym mêr hwn deil miri'r ha'
O'n rhengoedd ef yw'r i'enga'.

Cynhaliwyd Gwasanaeth i ddathlu a diolch am 15 mlynedd o weinidogaeth ar Orffennaf 23, yn y flwyddyn 2000.



Roedd yn awdur toreithiog, ac un o'i gyfrolau enwog oedd "Martin Luther King" gafodd ei chyhoeddi yn 1969.

Yn y rhagair dywedodd:-

*"Bydd raid inni ddysgu byw gyda'n gilydd. Hynny a fynnai Martin Luther King, a gweddïo yr wyf y gall y gyfrol hon, rywfodd neu'i gilydd, hyrwyddo cydfyw heddychol a chreadigol rhwng y gwahanol liwiau a chenhedloedd."*

Cyflwynodd ei gyfrol olaf o ysgrifau sef "Ysgub o'r Wisgon", a gyhoeddwyd ym 1996, i Fethlehem, Gwaelod- y- garth *"am iddynt roi ail wynt i mi".*

Crynhoddd Rhys Dafis, Ysgrifennydd yr Eglwys ar y pryd, ei gyfraniad fel "Ha Bach Mihangel" yn ei gywydd iddo yn 1998:-

*"Eich ha bach, fu'n llonni'ch byd,*
*Fu'n haf i ninnau hefyd;*
*Yn eisiau'n heneidiau ni,*
*Mae ei wres am oroesi*
*'N ernes i'r gwanwyn nesa,*
*A bore'r Haul a barha"*

Bu Eirlys ac Esyllt yn gefn mawr iddo trwy gydol ei Weinidogaeth, ac maent i'll dwy (a Tomos ac Anna) yn parhau yn aelodau gwerthfawr, gweithgar a ffyddlon ym Methlehem.

Hunodd, yn 87 mlwydd oed, yn Ysbyty Llandochau ar y 30ain o Fehefin 2007, ac fe roddwyd ei lwch i orwedd ym mynwent Capel Seion, yng Ngheredigion.

# Detholiad o'r Teyrngedau a dalwyd i'r Parchedig R Alun Evans ddydd ei angladd – 4ydd o Fedi 2023



Roedd Tŷ Cwrdd Bethlehem, Gwaelod-y-garth, a Chapel y Wenallt, Amlosgfa'r Ddraenen, Caerdydd, yn llawn at yr ymylon ar ddydd angladd y Parchedig R Alun Evans ar y 4ydd o Fedi 2023.

Delwyn Sion oedd a gofal y ddau wasanaeth, gyda Delyth Evans a gofal am y gerddoriaeth.

Cyflwynwyd gweddi gan y Parchedig Beti-Wyn James, a bu dwy wyres Alun, Anna a Manon, yn adrodd soned "Yr Hen Gapel, Llanbrynmair" o waith Iorwerth Cyfeiliog Peate.

Cyflwynwyd teyrngedau gan ddau ffrind a chyn cyd-weithwyr ym myd darlledu, Emlyn Davies ac Arwel Ellis Owen, ac ar ran Tŷ Cwrdd Bethlehem, gan Rhodri-Gwynn Jones.

Dyma beth o gynnwys y teyrngedau rheini:-

**Emlyn:**
Os ydach chi am ddod i nabod rhywun yn dda, fy nghyngor i fyddai hyn: Ewch i bysgota efo nhw. Pan fo person ar lan afon yn chwipio'r dŵr, weithiau'n brwydro yn erbyn yr elfennau, ar adegau yn oer hyd at ei esgyrn, yn teimlo'n ddigysur, a'r amynedd yn brin, buan y dewch chi i weld beth ydy gwir ruddin dyn. Ac mi fûm i yng nghwmni R. Alun mewn pob math o amgylchiadau, a'r cyfan welais i oedd yr anwylaf o blant dynion, yn hawddgar, rhadlon a doeth, a bob amser yn barod ei gymwynas.

Wrth lunio sgript, o ran cyflwyno i gamera, yn ei holi treiddgar ac yn ei ddadansoddi deallus, roedd o'n athrylith wrth ei waith.

Dechreuodd arwain ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1969, a bu'n gwneud hynny'n ddi-dor tan 1996.

Bu ei gyfraniad i'r Steddfod, yn gyhoeddus a thu ôl i'r llenni, yn ddisglair tu hwnt: yn gadeirydd y Cyngor, Llywydd y Llys a chadeirydd y Bwrdd Rheoli a chael ei ddyrchafu'n Gymrawd. Mi sgrifennodd o ddwy gyfrol ar gyfer y Steddfod, sef hanes y Rhuban Glas a hefyd 'Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn' llyfr a ddiweddarwyd ganddo ar gyfer y Steddfod eleni. Mi fu'n gymwynaswr mawr i'r Urdd hefyd, wrth gwrs, ac yn un o arweinwyr Eisteddfod Llangollen am chwarter canrif.

Roedd ei heddychiaeth yn rhan annatod o'i bersonoliaeth, yn greiddiol i'w Gristnogaeth. Pan gafodd ei ddyrchafu i fod yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, teitl ei anerchiad o'r gadair ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd 'Iesu'r Cymod', a hynny yn y flwyddyn 2014, ar yr union adeg pan oedd yna bwyllgor Cymreig newydd gael ei sefydlu i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd ei dad yn heddychwr wrth gwrs, ac felly Wynn ei frawd, ac roedd Alun yn gwbl bendant mai sail ei heddychiaeth oedd y ffaith mai efengyl y cymod ydy efengyl Iesu Grist, Ac mi fyddai'n dweud yn aml nad absenoldeb rhyfel ydy heddwch, ond yn hytrach presenoldeb egnïol cariad anorchfygol Iesu Grist yn y byd.

Pan fyddai hi'n amser i ni ei throi hi am adre o lan y dŵr, waeth faint o bysgod fyddai yn y fasged, waeth sut roedd y tywydd wedi bod, mi fyddai Alun yn edrych o'i gwmpas yn hamddenol, ac yn troi ata i ac yn dweud, "Ond dydan ni'n lwcus!" A'r pnawn ma, wrth feddwl am R. Alun, ei gwmnïaeth a'i gyfraniad sylweddol i fywyd y genedl, i fywyd bob un ohonom ni'n bersonol, i achos Iesu Grist y Cymodwr, wrth feddwl am y fraint o gael adnabod Alun, mi fedrwn ninnau i gyd ddweud, yn medrwn: "Ond dydan ni'n lwcus!"

**Arwel:**
"Tua'r amser yma o'r dydd, toc wedi dau o'r gloch y bydde Alun a minnau yn cyfarfod, bron bob dydd am yn agos i ddeng mlynedd. Alun yn cyflwyno Heddiw, rhaglen deledu, ddyddiol ar BBC Cymru, a fi yn rhyw gyw olygydd.

Cyfnod llawn cyffro yn Hanes Cymru, o'r Arwisgo yng Nghaernarfon i'r Refferendwm aflwyddiannus, cyntaf ar ddatganoli, gydag ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ddarlledu, a Mudiad Amddiffyn Cymru ar ail gartrefi, yn llenwi bron pob penwythnos.

Amser llawn tensiwn i ddarlledwyr, oedd yn trio paratoi drafft cyntaf Hanes, tra bod y protestiadau ar ddatblygiadau gwleidyddol yn digwydd yn fyw o'n cwmpas.

Unigolyn oedd Alun oedd yn barod i herio ac amau priodoldeb rhai penderfyniadau golygyddol, tra hefyd yn cynnig ffordd ymlaen. Roedd yn gadarn ei farn bod mwy i ddarlledu cyhoeddus nag adlewyrchu cymdeithas, a bod dehongli digwyddiadau yn debyg o olygu hefyd bod y gwasanaeth yn mynd i ddylanwadu ar ddatblygiadau.

Roedd yn ddarlledwr crefftus a chraff. Fel holwr, roedd yn gwrando, yn we o sglein a sylwedd. Roedd yna agosatrwydd naturiol, a chyfoeth yn ei Gymraeg, llafar ac ysgrifenedig. Roedd yn awdur toreithiog ac yn sylwebydd penigamp. Cyfathrebwr gwych, gyda gwên barod, a llais y gellir ymddiried yn llwyr ynddo.

Fe symudodd Alun o gyflwyno Heddiw i fod yn bennaeth y Ganolfan Ddarlledu ym Mangor, gan chwarae rhan bwysig yn natblygiad Radio Cymru yn ogystal â sefydlu Bryn Meirion yn ganolfan aml gyfryngol yn y Gogledd.

Parhad tudalen 14 >

## Teyrngedau i'r Parchedig R Alun Evans (parhad)

Fe ddatblygodd Alun yn rheolwr a gweinyddwr hynod effeithiol, gyda pharch uchel i'w steil o gyfathrebu â'i staff.

Fe ddechreuodd ei yrfa yn y Weinidogaeth yn Llandysul a'i gorffen ym Methel, Caerffili a Bethlehem, Gwaelod y Garth. Do fe fu yn un o blant yr "anialwch gweinidogaethol" a swapio'r pulpud am Stiwdio, ond yn ôl y daeth a hynny am fod yr "alwad i wasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist yn gryfach na dim arall".

"*Mentro allan i'r afresymol fôr*" a wnaeth, gan ychwanegu ei fod wedi derbyn yr hyn oedd ar gael, derbyn pob her, a "*dangos bod byw yn golygu mwy na bodoli*"

**Rhodri:**

"'*Rwy'n taro gair i roi newyddion da ichi ynglŷn â'n hymdrechion i sicrhau Gweinidog i Fethlehem.*

*..., casgliad unfrydol y Pwyllgor oedd y dylem droi at y Parch. R. Alun Evans i gymryd gofal am Bethlehem ar y cyd â Bethel, Caerffili.*

*Gwnaethpwyd ymholiadau, a chael ymateb brwdfrydig ganddo ar unwaith.*

*'Roedd yn gyfarfod cynnes a llawn gweledigaeth ymarferol,*

*Mae hyn yn cynnig agor pennod newydd a chyffrous yn hanes Bethlehem..."*

Ac fel y gwyddoch, fe drowyd "*y cynnig*" yn "*dderbyn*" gan y naill ochr a'r llall, ... yn "fuddsoddiad" o'r radd flaenaf ac a dalodd "ddifidend" gwell na fedrai'r un farchnad stoc o gwmpas y byd hyd yn oed freuddwydio amdano.

Dechreuodd ar ei weinidogaeth ym Methlehem ym mis Ionawr 2008, a chynhaliwyd y Cwrdd Sefydlu ar y 19eg o Ebrill.

Ym myd y cyfryngau, mae hi'n ffasiynol iawn i fesur llwyddiant y dyddiau hyn yn ôl ffigyrau gwylio a gwrando

Ond mi ddywed y rhai sy'n deall yn well, mai'r hyn ddylech chi fesur ydi'r "gwerthfawrogiad".

Beth bynnag fo'r achlysur – ar adegau o lawenhau ac o alaru, y llon a'r lleddf yn ein bywydau ni, bu'n dewis ei eiriau'n ddoeth ac yn gynnil, eu mynegi'n ddidwyll a bu ei ymweliadau â chleifion a theuluoedd i gyd yn rhai cysurlon.

Roedd ganddo rywbeth i'w ddweud wrthym ni ym Methlehem, a phob Bethlehem a Bethel arall yr ymwelai â hwy dros Gymru benbaladr a thu hwnt i Glawdd Offa.

Ar ei ymddeoliad fel Gweinidog, comisiynwyd Rhys Dafis i gyfansoddi geiriau, a Ieuan Wyn, i gyfansoddi cerddoriaeth, a bu Côr Merched Bethlehem yn canu'r cyfansoddiad arobryn, "Y Bugail Da" yn yr oedfa ddiolch.

*"Dy alwad ddôi i'n harwain; ninnau'n dilyn*
*At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw;*
*Buost Alun inni'n fugail da,"*

A'i sylw wrth ymddeol:-

"*Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbrynmair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf.*

*Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig.*

*I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!"*

Bu'n ddiwyd yn paratoi, yn drylwyr a phwrpasol, ar gyfer ei oedfa olaf ar Sul y 25ain o Fehefin eleni.

Cafodd gymeradwyaeth gan y gynulleidfa niferus, oedd, nid yn unig yn adlewyrchu'r gwerthfawrogiad o'r oedfa arbennig a gafwyd, ond yn gydnabyddiaeth deilwng o'i bresenoldeb a'i gyfraniad yn ein plith, fel Gweinidog, ac wedi'r ymddeoliad, fel cyfaill.

*"Yn y Gwaelod, gyda'n gilydd – y down*
*I Dŷ llawn llawenydd;*
*Hafan ddiffwdan ein ffydd,*
*Manna yng nghysgod Mynydd."*

Geiriau ei fab, Rhys Powys, yn sicrwydd bod Tŷ Cwrdd Bethlehem, Tŷ'r Bara, wedi elwa ar ei ganfed o gael rhannu a bwyta'r "manna" yng nghwmni Alun.

# Ysgol Evan James

**Croeso nôl**

Hoffem estyn croeso cynnes i holl ddisgyblion a staff yr ysgol wrth i ni ddechrau blwyddyn gyffrous arall. Mae 41 o ddisgyblion newydd wedi ymuno â ni yn Nosbarth Jac y Jwc. Mae dau aelod newydd o staff yn gweithio yma hefyd. Mae Miss Harris yn athrawes yn Nosbarth Tom Jones ac mae Miss Egan yn gynorthwyydd yn Nosbarth Sali Mali. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma.

**Cynghorau lu**

Mae'r mis hwn wedi bod yn un prysur wrth i ni ethol aelodau i weithio ar gynghorau'r ysgol. Mae pob cyngor a'r Senedd wedi cwrdd ac mae cynlluniau cyffrous ganddynt am waith y flwyddyn.

**Gwasanaeth Mr Coleman**

Daeth Mr Coleman a'i gyfaill Doug i gynnal gwasanaeth yma. Fe ddysgom am bwysigrwydd helpu'n gilydd a chydweithio i oresgyn anawsterau. Diolch Mr Coleman.

**Nosweithiau Cwrdd â'r Athro**

Roedd y dosbarthiadau dan eu sang ar nosweithiau cwrdd â'r athro. Roedd rhieni a gwarcheidwaid yn awyddus i glywed beth fyddai eu plant yn ei wneud yn eu dosbarthiadau newydd. Diolch am eich cefnogaeth.

**Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024**

Rydym oll yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r Eisteddfod i Bontypridd fis Awst nesaf. Mae'r Senedd eisoes wedi dechrau meddwl am fentrau i gefnogi'r achos a chodi arian.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

**Gwyddoniaeth aThechnoleg yn y Genedlaethol eleni**

Pleser arbennig oedd ymweld â'r Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r pentref ar ddarn o'r Maes, ar ffurf cylch gyda maint tua hanner cae peldroed. Ar ffin y cylch mae amryw o stondinau yn cyflwyno nodweddion nifer o sefydliadau, gyda phobl frwdfrydig a hynaws yn barod iawn i drafod eu cynnyrch a'u bwriadau.

Ar ganol y cylch mae dwy babell sy'n cyflwyno swyddogaeth wahanol ond allweddol i ffyniant y pentref. Yn y Sfferen, sy'n dal tua 100 o gynulleidfa, ceir cyflwyniadau, trafodaethau, darlithoedd ar amrywiaeth o destunau o bwys i arbenigwyr a lleygwyr, megis, amaeth a bwyd, dulliau fforensig at ddatrys trosedd, newid hinsawdd, anturiaethau'r gofod, anafiadau chwareuon, dementia. Mae'r Lloeren yn fangre awyr agored ond dan do rhag glaw, lle trefnir heriau llaw a llygad i arbrofwyr o bob oed. Rhwng y Sfferen a'r Lloren mae modd diwallu gallu a chwilfrydedd nifer fawr.

At fy nant i, roedd sesiwn arbennig o ddiddorol dan y teitl, Y Tri Chawr, sef, Richard Price, William Morgan a Griffith Davies, y tri wedi gwneud gwaith arloesol a pharhaol dros dair canrif yn ôl; mae eu mathemateg yn dal yn greiddiol i'r diwydiant yswiriant. Yn sgîl hyn oll daeth proffesiwn newydd i fodolaeth, sef, yr actwari. Bu'r sesiwn yn gyfle i Haydn Edwards gyfeirio at ei brofiadau wrth lunio'i lyfr diweddar ar fywyd Griffith Davies, Arloeswr a Chymwynaswr (Gwag Prifysgol Cymru).

Yn y Sfferen hefyd cafwyd y Brif Ddarlith, Profion Genetig ar gyfer Byd Mwy Diogel gan Dyfrig Huws.

Cyn y ddarlith cynhaliwyd Seremoni Y Fedal a ddyfarnwyd eleni i'r Athro Emeritws Alan Shore (Bangor), brodor o Dredegar a ddechreuodd ei yrfa yn fathemategydd ond a orffennodd yn arbenigwr ar beirianneg electronig. Da oedd gweld bod enillwyr mewn cystadlaethau, dwy erthygl ac un dyfais. Mae cynnwys y cyflwyniadau i'w weld yn Cyfansoddiadau a Beirniadathau. Ewch amdanynt.

Diolch yn fawr i'r is-bwyllgor GaTh lleol am sicrhau profiad difyr yn y Pentref.

Neville Evans

# Ysgol Llantrisant

**Croeso nôl**
Croeso nôl i holl ddisgyblion a staff yr ysgol wedi'r gwyliau haf. Roedd yn hyfryd gweld y plant i gyd ar ddechrau'r mis ac mae pawb erbyn hyn wedi ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd. Croeso enfawr hefyd i'n disgyblion newydd yn y dosbarth Meithrin. Dyma rai o'r disgyblion yn ystod wythnos gyntaf (poeth!) y flwyddyn.









**Gwisgo Coch ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol**
Bydd eleni'n flwyddyn prysur iawn i ni yma yn sir Rhondda Cynon Taf wrth baratoi tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Ynys Angharad. Er mwyn helpu codi arian ar gyfer yr Eisteddfod, cafodd y plant wisgo dillad coch i'r ysgol.





**Hwyl fawr**
Fe ffarwelion ni wythnos diwethaf â Mr Dyfan Krieger sydd wedi bod yn gweithio gyda ni yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i Mr Krieger am ei holl waith caled a dymunwn bob hwyl wrth iddo ddechrau cwrs gradd Cysylltiadau Rhyngwladol yng Ngholeg Prifysgol Kings yn Llundain.

# PONTYPRIDD

Gohebydd y mis: Jayne Rees

**Janets**
Pob dymuniad da i Janet Wei Caffery wrth iddi agor ei bwyty newydd yn Church Street, Pontypridd. Mae ei horiau wedi'u ymestyn i gynnwys y nos ac amser cinio ddydd Sul. Ar ôl llwyddiant ysgubol y bwyty yn y farchnad mae poblogrwydd bwyd arbennig Janet yn mynd o nerth i nerth.

**Clwb llyfrau**
Dewch i drafod yn y Llyfrgell fore Mercher 18fed o Hydref am 10.30.

**Pwyllgor Apêl Ardal Pontypridd**
Diolch o galon i Wil Morus Jones am arwain taith hanesyddol o gwmpas Pontypridd ddiwedd Awst. Noson hynod o lwyddiannus ac wrth gwrs wedi chwyddo'r coffrau!

Mae merched Graigwen yn cynnal Te Prynhawn yn Calon Taf ym Mharc Ynysangharad bnawn Iau Hydref 5ed.
Pob lwc i Eurgain Haf a Lowri Mared sy'n rhedeg Hanner Marathon Caerdydd gyda chyfran o'u harian noddi yn mynd tuag at Eisteddfod RhCT.

Fe fydd y cyfarfod nesa i drafod fwy o syniadau i godi arian Nos Fercher Hydref 4ydd yng Nghlwb y Bont am 8.00. Croeso cynnes i bawb.

**Clwb y Bont**
Llongyfarchiadau i'r Clwb wrth ddathlu 40 mlwyddiant yr Hydref yma. Mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill. Gwyliwch y dudalen Facebook yn ogystal â gwrando ar hysbys ar Radio Cymru am fwy o fanylion neu wrth gwrs galwch heibio r Clwb am beint!

**Y Miwni**
O'r diwedd mae'r gwaith wedi dechre ar yr adnewyddu. Yn sicr fe fydd yr adeilad ar ei newydd wedd yn adnodd pwrpasol a defnyddiol tu hwnt ar gyfer Eisteddfod RhCT.

**Merched y Wawr**
Diolch o galon i Gwerfyl, Mair, Siân Ebbsworth a Sharon am gyfrannu at ein noson gyntaf wrth iddynt drafod 3 lle oedd yn bwysig iddynt. Noson ddifyr tu hwnt!
Bydd y gangen yn cwrdd nos Iau Hydref 12fed am 7.30 p.m. yn y llofft Clwb y Bont pan ddaw Siwan Hill Caerdydd atom i son am ei hoffter o gasglu llestri arbennig. Croeso i aelodau newydd.

Gohebwyr mis Tachwedd yw Dave a Margaret Francis. Cysylltwch â nhw gyda'ch newyddion.




# Eisteddfod Genedlaethol 2024

Rydyn ni'n gwybod erbyn hyn mai yn ein cornel ni o'r sir y cynhelir yr Eisteddfod, a hynny ym Mhontypridd. Gobeithiwn y bydd yn bosib defnyddio adeiladau yn y dref, yn ogystal â Pharc Ynysangharad. Daw cyhoeddiad yn fuan am y maes carafanau a meysydd parcio.

Diolch yn fawr i bawb sydd wrthi'n trefnu gweithgareddau ledled y sir. Fel dw i'n pwysleisio wrth ein dysgwyr ni, mae hwn yn gyfnod gwych i fod yn dysgu Cymraeg, gyda chymaint o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Un peth y gall pawb ei wneud i helpu rhwng nawr a mis Tachwedd yw gwerthu tocynnau raffl. Mae'r tocynnau yn ddwy bunt yr un ac mae tair gwobr:
1af: £1,000
2il: Profiad jin i ddau a gwely a brecwast yng Ngwesty'r Vale
3ydd: Hampyr Nadolig

Tynnir y raffl ar Ragfyr 1af. Rhowch wybod os ydych chi eisiau cael tocynnau i'w gwerthu. Bydd rhagor o newyddion cyn bo hir hefyd am nwyddau y byddwn ni'n eu gwerthu.

Rhowch wybod os oes unrhyw beth yr hoffech i fi ei wneud.

Helen Prosser (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)

# Desin ac Oppenheimer

Barbenheimer - llond ceg o air a ymddangosodd am ysbaid yn yr haf. Mae yn cyfeirio at lansiad dwy ‘blockbuster’ sef Barbie ac Oppenheimer. Mae’n debyg bod y ddwy wedi eu cyflwyno mewn sinemâu gefn wrth gefn. (Mae gwyddonydd yn yr Almaen wedi priodoli'r cynnydd diweddar mewn achosion Cofid, yn rhannol, i’r nifer fu’n gwylio’r ddwy ffilm yn union ar ôl ei gilydd!) Fodd bynnag roedd tair awr Oppenheimer yn ddigon i mi.

Mae’r ffilm yn dilyn gyrfa J Robert Oppenheimer, ffisegydd athrylithgar, y person a gyflwynodd y ffiseg newydd - ffiseg cwantwm - i’r Unol Daleithiau ac a lwyddodd i ddenu bagad o wyddonwyr a thechnolegwyr disglair i labordy Los Alamos yng nghanol diffeithwch talaith Mecsico Newydd gydag un nod sef datblygu bom atomig. Drwy ei arweiniad llwyddwyd i gwblhau hynny er gwaethaf yr anawsterau. Ond arweiniodd y llwyddiant at ddinistrio dwy ddinas yn Japan gyda chanlyniadau erchyll i’r trigolion.



Gyda diwedd yr Ail Ryfel Byd daeth Oppenheimer yn arwr cenedlaethol. Ond ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach cafodd ei wahardd rhag parhau yn un o brif ymgynghorwyr y llywodraeth ar egni atomic ac ar amddiffyn, yn bennaf oherwydd ei gysylltiad â chomiwnyddion cyn y rhyfel. Nid syndod taw teitl y llyfr sy’n sail i’r ffilm yw “American Prometheus: The Triumph and Tragedy of J. Robert Oppenheimer”. Mae’n wir i’w enw da gael ei adfer yn y pendraw a derbyniodd wobr mawr ei bri trwy law’r arlywydd Johnson. Ond nid amherthnasol yw’r hyn wnaeth Einstein ddweud, yn ôl y ffilm, wrth Oppenheimer: “Cofia pan gyflwynir anrhydedd i ti nid y ti sy’n cael dy anrhydeddu ond nhw”.

Roedd gan y ffisegydd athrylithgar o Gwmsychbant yng Ngheredigion Evan James Williams, neu Desin i ddefnyddio ei ffugenw, gysylltiad â nifer o’r prif gymeriadau yn y ffilm. Sefydlwyd perthynas glos dros nifer o flynyddoedd gyda dau ohonynt sef Patrick Blackett a Niels Bohr, y ddau wedi derbyn gwobr Nobel.

Fel yn achos Desin astudio natur pelydrau cosmig oedd prif ddiddordeb



Desin

Blackett yn y blynyddoedd cyn y rhyfel a byddent yn trafod a rhannu canlyniadau eu hymchwil yn y maes. Yn ddiweddarach bu’r ddau yn gweithio’n agos gyda’i gilydd yn y Morlys yn datblygu a defnyddio technegau ymchwil gweithredol i wrthsefyll ymosodiadau llongau tanfor yr Almaen. Yn sgil marwolaeth annhymig Desin yn 1945 mae’n arwyddocaol taw Blackett a wahoddwyd gan y Gymdeithas Frenhinol i baratoi teyrnged iddo.

Mae’r olygfa lle’r ymddengys Blackett yn y ffilm yn eitha’ *bizzare*. Yn gynnar yn y ffilm gwelir Oppenheimer yn y Cavendish, sef adran ffiseg Prifysgol Caergrawnt. Yn yr olygfa mae ei letchwithdod yn achosi trafferthion wrth iddo geisio trin offer yn y labordy ac mae Blackett, sy’n arolygu’r dosbarth, yn ei geryddu. Yn eiddigeddus o’r parch i Blackett yn y Cavendish ac yn flin oherwydd y cerydd mae’n penderfynu ceisio lladd Blackett drwy chwistrellu gwenwyn i afal a’i osod ar ei ddesg. Ychydig yn ddiweddarach gwelir Blackett ac Oppenheimer yng nghwmni Niels Bohr yn ystafell Blackett. Yn ystod y sgwrs mae Bohr yn estyn i gydio yn yr afal ond yn syth mae Oppenheimer yn cipio’r ffrwyth oddi ar y ddesg. Hyd y gwn i, wnaeth Bohr ddim ymweld â Chaergrawnt yn ystod y cyfnod dan sylw ond er ffugio presenoldeb Bohr mae’n debyg bod elfen o wirionedd i stori’r gwenwyno a hynny yn amlygu rhwystredigaeth ac ansadrwydd meddyliol Oppenheimr ar y pryd.


Cychwynnodd cysylltiad Desin â Bohr yn sgil y flwyddyn sabothol a dreuliodd Desin yn 1933-34 yn gweithio yn Athrofa Bohr yng Nghopenhagen. Arweiniodd y cyfnod hwn at sefydlu cyfeillgarwch cynnes ac agos rhwng y ddau. Erbyn y 30au roedd Bohr, ag yntau yn brif arloeswr datblygiad cynnar ffiseg cwantwm, yn un o gewri’r maes a’i Athrofa yng Nghopenhagen yn fangre ymweliad a chartre i wyddonwyr blaenaf yr oes. Nid rhyfedd i rai alw’r Athrofa yn Fatican ffiseg cwantwm a Bohr yn Bab. Roedd Desin felly yng nghanol datblygiadau’r cyfnod ac yn aml gweithredai fel cynorthwyydd i Bohr.

Parhaodd y berthynas ar ôl iddo ddychwelyd â thrwy anogaeth Bohr ymwelodd â’r Athrofa ar sawl achlysur. Torrodd y rhyfel ar draws y berthynas ac ni fu cyfle i Desin ymweld eto. Ond pan benderfynodd cylchgrawn *Reviews of Modern Physics* gyhoeddi rhifyn deyrnged i Bohr ar ei ben-blwydd yn 60 oed, Desin oedd un o’r cylch dethol, yn cynnwys Einstein, gafodd wahoddiad i gyflwyno ysgrif i ‘w chynnwys yn y rhifyn. Dyma ernes glir o statws rhyngwladol Desin.

Mae Bohr yn ymddangos sawl gwaith yn y ffilm. Yn y rhan o’r ffilm sy’n ymwneud â chyfnod Los Alamos gwelir Bohr yn derbyn croeso hynod frwdfrydig y gwyddonwyr. Wedi i’r Almaen dynhau ei gafael ar Ddenmarc smyglwyd Bohr i Brydain a theithiodd wedyn i’r Unol Daleithiau. O gofio’i statws roedd cael ei gyngor ar ddatblygiad y bom yn amhrisiadwy. Ond mwy na hynny roedd ei bresenoldeb yn hwb seicolegol pwysig ac nid syndod y brwdfrydedd a’r croeso.

Mewn golygfa arall yn y ffilm, eto yn Los Alamos, gwelir Bohr yng nghwmni nifer o’r gwyddonwyr yn sôn am y cyfarfod ddigwyddodd yn ei gartref yng Nghopenhagen rhyngddo ef a Werner Heisenberg yn 1941. Bu Heisenberg yn ddisgybl i Bohr ac fe’i hystyrir yn un o ffisegwyr disgleiriaf ei gyfnod, yn un o griw bychan ganol y 20au a fu’n gyfrifol am osod egwyddorion ffiseg cwantwm ar seiliau cadarn. Ond erbyn yr Ail Ryfel Byd roedd wedi ei benodi’n arweinydd rhaglen atomig y Reich a thrwy hynny ei droi ef a’i gyd-wyddonwyr yn elynion i Oppenheimer a ffisegwyr eraill Los Alamos.

Beth oedd arwyddocâd y cyfarfod rhwng y ddau? Nid yw atgofion y ddau yn rhoi ateb clir ac o’r herwydd mae’r digwyddiad wedi bod yn destun chwilfrydedd tros y blynyddoedd. Hyn sbardunodd Michael Frayn i sgwennu drama am yr achlysur yn dwyn yr enw Copenhagen. Ansicrwydd oedd y thema ddewisodd fel sail i’w ymdriniaeth, ansicrwydd o ran niwlogrwydd atgofion Bohr a Heisenberg a’r ansicrwydd sy’n rhan o hanfod ffiseg cwantwm.



Dear Dr Williams,

I have to thank you for your long and interesting letter, and for the manuscripts and offprints which you sent. Andersonand Neddermeyer have looked over the alas unpublished manuscript, and I am returning it to you.

I feel very guilty now for having published my paper on the high energies, and wish that I had left the subject entirely in your competent hands. Originally I had worked on the problem immediately after seeing Weizsaecker's paper, not with a view to publication, but just to try to resolve what seemed to me then an intolerable contradiction. It seemed to me ... that the breakdown of the super- ... was not ... Weizsaecker had ...

which ... a ... of genuine ... shall send it ...

With all cordial greetings,

J R Oppenheimer

Pasadena, California.
May 25.

Llythyr Oppenheimer i Desin

Parhad tudalen 17 >

## Desin ac Oppenheimer (parhad)

Cyfieithwyd y ddrama i'r Gymraeg gan Geraint Wyn Davies a'i llwyfannu yn Eisteddfod Genedlaethol 2000 Llanelli a'r Cylch gyda Geraint Wyn ei hun yn cymryd rhan Bohr, Margaret Pritchard yn rhan Margrethe, sef gwraig Bohr, a Frank Lincoln yn rhan Heisenberg. Yn fy marn i cafwyd perfformiad mor afaelgar, os nad mwy felly, na'r llwyfaniad Saesneg a welais yn Llundain a bu ar daith o gwmpas Cymru wedyn. Mae'n siŵr ei bod ymysg yr ychydig ddramâu Cymraeg sy'n cynnwys ymdriniaeth wyddonol.

Ond pa gysylltiad fu rhwng Desin ac Oppenheimer? Yn 1938 treuliodd Desin haf yn yr Unol Daleithiau yn darlithio, ymweld â sefydliadau ymchwil a mynychu cynadleddau. Prifysgol Berkeley oedd un o'r lleoliadau, y brifysgol lle'r oedd Oppenheimer yn athro, a bu'n darlithio yno . Mae'n eitha posibl iddo achub ar y cyfle i gwrdd ag Oppenheimer bryd hynny.

Mwy arwyddocaol oedd y ddadl a gynhaliwyd rhyngddynt yng nghanol y 30au. Fel Desin a Blackett roedd Oppenheimer yn ymddiddori yn nirgelion pelydrau cosmig. Roedd Desin yn dadlau bod yna ronyn elfennol yn bodoli nad oedd neb wedi dod ar ei draws. Fodd bynnag, amheuai nifer o ffisegwyr, gan gynnwys Oppenheimer, safbwynt Desin. Y canlyniad oedd i'r ddau gyflwyno eu dadleuon mewn papurau yn *Physical Review*, cylchgrawn Cymdeithas Ffiseg yr Amerig. Yn nes ymlaen anfonodd Oppenheimer lythyr at Desin ac wedi diolch mae'n dweud *"I feel very guilty now for having published my paper on the high energies, and wish that I had left the matter entirely in your competent hands."* Mae'r llythyr i'w weld yn archif papurau Desin ym Mhrifysgol Aberystwyth ac awgryma ei gynnwys bod Oppenheimer wedi cael ei argyhoeddi gan ddadl Desin. Tipyn o bluen yn het y crwt o Gwmsychbant.

Bu Oppenheimer farw yn 1967 ag yntau yn 62 mlwydd oed. Yn drist bu Desin farw yn 1945 ag yntau ond yn 43 mlwydd oed. Er ei fod eisoes yn wyddonydd a gydnabyddid yn rhyngwladol pwy a ŵyr beth fyddai wedi ei gyflawni pe bai wedi cael byw.

Rowland Wynne


## Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd




**Rhaglen y Tymor 2023 – 24**

Cinio yng Ngwesty New House, Y Ddraenen, CF14 9UA
7.00 i 9.30pm
Pris £28 y noson
Dyddiadau Isod
CROESO CYNNES I BAWB

**Hydref 2ail 2023**
Elinor a Dafydd Wigley

**Tachwedd 6ed**
Emyr Afan,
*Prifweithredwr Afanti*

**Rhagfyr 4ydd**
Geraint Cynan
*Cerddor*

**Chwefror 5ed 2024**
Huw Thomas
*Arweinydd Cyngor Caerdydd*

**Mawrth 4ydd**
Yr Athro Medwin Hughes
*Cadeirydd Llais*

**Ebrill 1af**
Mary Stallard
*Esgob Llandâf*

**Mai 13eg**
Manon Antoniazzi
*Prif Weithredwr Y Senedd*

Talu drwy drosglwyddiad banc fyddai'n well gennym.
Côd didoli 52-21-63
Rhif y Cyfrif 12752274.
COFIWCH roi eich enw yn y blwch 'Reference'

Os am fanylion pellach, cysylltwch ag

Arwel Ellis Owen (Llywydd) 07703472853 Ebost:arwelellisowen@icloud.com
Paul Morgan (Cyd Ysgrifennydd) 07761696286 Ebost:paulmorgan@ntlwold.com
Ann Williams (Cyd Ysgrifennydd) 07803196757 Ebost:annamdant@icloud.com
Bethan Whittall (Trysorydd) 07967753824 Ebost:b.whittall@btopenworld.com


# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*

**Cyngor Cymuned**

Cynhaliwyd ras y goedwig a diwrnod hwyl a sbri blynyddol ar Awst 9 ac fe oedd y tywydd yn fendigedig. Mae'r achlysur yn un arbennig i'r gymuned, sy'n dod a phobol y pentref at ei gilydd ac wrth gwrs y plant sy'n bwysig ble mae popeth yn rhad ac am ddim iddynt. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r rhai wnaeth ddarparu adloniant a lluniaeth. Diolch i'r gwirfoddolwyr.

Llongyfarchiadau i'r rhai a wnaeth ennill gwobrau yn cynnwys y Merched dan 16 Darcey Davies cyntaf ac Esmay Walters ail o Ysgol Llanhari a Merched dan 12 Verity Walters ail o YGG Tonyrefail. Cafodd pawb medal am gymryd rhan. Diolch i'r gwahoddedigion am eu presenoldeb.







# MyW - Cangen y Garth

## O Bont-y-tŷ-pridd i Bontypridd dan arweiniad Wil Morus-Jones!

A hithau'r flwyddyn fawr i Ponty blwyddyn nesa - cartref yr Eisteddfod Genedlaethol, mor braf oedd cael cwmni'r gwybodus Wil Morus-Jones i'n tywys o gwmpas y dref hynafol a diddorol hon - a hynny ar ein heistedd! Wil roddodd gychwyn i'n tymor newydd ni, p'nawn Mercher yr 20fed yng Nghlwb Rygbi, Pentyrch! Daeth criw da ynghyd i wrando a gwylio! Roedd Wil wedi paratoi sleidiau ar ein cyfer oedd yn gefnlen i bob stori a hanesyn oedd gan Wil i'w rhannu.

Wyddech chi bod yna CHWE phont yn croesi'r afon Taf ym Mhontypridd? Gwyddom oll am bont enwog William Edwards - ond tybed faint ohonoch oedd yn sylweddoli bod y dywediad 'tri chynnig i Gymro' yn deillio o ymdrechion William Edwards i godi pont lwyddiannus yn niwedd y ddeunawfed ganrif? Bu'n rhaid iddo gyflwyno tri chynllun cyn creu y bont berffaith wnai wrth-sefyll y llif!



Nepell o'r Hen Bont mae tafarn y Llanofer! Atgofion melys iawn! Tafarn agorwyd nôl yn 1792! Ac mae iddi hanes! Bu'n fan cyfarfod i Glic y Bont - cymdeithas ddiwylliedig, fyddai'n rhoi cymorth i dlodion yn y gymdeithas, tra'n cynnal trafodaethau gwleidyddol a llenyddol. Atgoffodd Wil ni o'r pennill bach -

'Lle nafus yw Llanofer
I ddyn sy'n yfad llawer;
Fe syrthiodd William Morgan fawr,
Un salw, lawr i'r seler'.

Awdur y geiriau? Neb llai nag awdur geiriau 'Hen Wlad fy Nhadau'. Cafwyd sawl stori ddifyr arall cyn cyrraedd y Comin! Cartref Wil, wrth gwrs! Llecyn sy'n cynnig golygfa fendigedig o'r dref. Yr orsaf unigryw - gyda phlatfform hiraf unrhyw stesion yn Ewrop! Y Cylch Derwyddol o gwmpas y Maen Llog. Creadigaeth hynod Iolo Morgannwg. Y Tai Crynion, a hanes yr unigryw Dr William Price. Siartydd oedd Dr Price ac yn wir gellir tadogi cychwyn y gwasanaeth iechyd anhygoel sy' gennym i'w weledigaeth ef - ymhell cyn Aneurin Bevan.

Cymaint o straeon ac hanesion - fedra i byth wneud cyfiawnder â darlith Wil! Ond am gloi gyda rhai o hanesion Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd yn y flwyddyn 1893! Ie - 1893! Codwyd pafiliwn ym Mharc Ynysangharad - oedd yn dal 20,000 o bobol! Ie - 20,000! A beth fydd gennym blwyddyn nesa? Ddim am fentro dyfalu! Ac roedd gan y Pwyllgor Cerdd £720 i'w ddyrannu mewn gwobrau! Cyfateb i £640,000 heddiw! Mae 'Angharad' yn dal yn ddirgelwch! Os gwyddoch unrhywbeth amdani hi - plîs, cysylltwch! Wil - diolch o galon am dy holl waith paratoi a'th draddodi hyfryd! Diolch i Eifiona am gyflwyno a chloi mor gynnes a didwyll.

Edrych mlân at eich gweld yn ein cyfarfod nesa ar b'nawn Mercher, Hydref 18fed.

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Sian Llewelyn Jones

**Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau**

Mae Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau wedi ail ddechrau ar ôl yn haf gyda rhaglen amrywiol ar gyfer 2023 a 2024.



Y trysoryddion yn barod i dderbyn tâl aelodaeth



Rhai o'r aelodau yn mwynhau'r rhifyn diweddaraf o'r Wawr



Ambell un yn ceisio dyfalu pwy yw pwy yn y lluniau o'r aelodau yn ifanc.

**Codi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cyn Taf**

Mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur yn cynnal gweithgareddau i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Bu criw yng Ngŵyl Fwyd Pontyclun ar brynhawn gwlyb ym mis Awst yn casglu arian.

Ym mis Medi cynhaliwyd noson jin yn nhafarn y Boars Head yn Nhyla Garw. Diolch yn fawr iawn i Wayne, y perchennog, am y croeso arbennig a'i haelioni.

Os hoffech ymuno â'r pwyllgor, mae'r cyfarfod nesaf yng Nghlwb Rygbi Pontyclun am 7:00 nos Lun, Hydref 16eg. Mae nifer fawr o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill!









# Ysgol Creigiau



Blwyddyn 6 yn mwynhau hanes Genhedlaeth Windrush

**Ymweliad Mr Jimmy Stokes**
Ar ddechrau'r tymor ymwelodd Mr Jimmy Stokes, awdur ac athro sydd wedi ymddeol, â'r ysgol i siarad â'n disgyblion Blwyddyn 6 am Genhedlaeth Windrush a'r hiliaeth a'r rhagfarn hanesyddol sy'n wynebu grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Roedd disgyblion Blwyddyn 6 wedi mwynhau gwrando arno yn fawr - diolch Mr Stokes. Am ffordd wych o ennyn brwdfrydedd y disgyblion wrth iddynt ddechrau ar eu hymchwiliad newydd.

**Prynhawn Cwrdd a Chyfarch**
Diolch yn fawr i'n teuluoedd am ddod i'n diwrnod 'Cwrdd a Chyfarch' brynhawn Gwener, 22ain Medi. Cawsant gyfle i gwrdd ag athro/athrawes newydd eu plentyn, cwrdd â staff eraill sy'n gweithio yn y dosbarth, gweld ystafell ddosbarth newydd eu plentyn a phrofi gweithgareddau y mae'r disgyblion eisoes wedi ymgysylltu â nhw. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ymweld â'u dosbarth!

**Gweithgareddau Awyr Agored yr Urdd**
Ddydd Iau, 14eg Medi, bu Emma, o Dîm Gweithgareddau Awyr Agored yr Urdd, yn yr ysgol yn darparu gweithdai 'Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth' i ddisgyblion Blwyddyn 4. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar waith tîm, cyfeiriannu a datrys problemau. Roedd y disgyblion i gyd wrth eu boddau.



Blwyddyn 4 yn adeiladu cysgodfan



Gweithgareddau Awyr Agored i Flwyddyn 4

**Ymweliad Adam Colman**
Yn ystod ail wythnos y tymor newydd daeth Adam Colman, Menter Ysgolion Cymraeg, i'r ysgol i gyflwyno gwasanaeth i ddisgyblion yr Adran Gymraeg. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar ei straeon. Diolch Mr Colman.

**Ymweld â'r Senedd**
Ddydd Iau, 14eg Medi, aeth dau ddisgybl o Ddosbarth 6, Joseph a Celyn, i'r Senedd ym Mae Caerdydd. Fel cynrychiolwyr Dosbarth 6 ar ein Cyngor Ysgol, dewiswyd y ddau i gymryd




Joseph a Celyn yn y Senedd

rhan mewn "Senedd" ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg Caerdydd. Y bwriad yw annog annibyniaeth a mentergarwch y disgyblion, a rhoi ystod o gyfleoedd iddynt gydweithio gyda disgyblion o ysgolion eraill ar wahanol brosiectau. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect gyda chynrychiolwyr yn cymryd rhan weithredol yn y 'Senedd'. Yn ystod eu hymweliad cafodd Joseph a Celyn daith o amgylch y Senedd, gyflwyniad i sut mae'r Senedd yn creu deddfau ac fe wnaethant drafod eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Mwynheuon nhw'n fawr ac maent yn edrych ymlaen at eu hymweliad nesaf.

**Seiclo i Ddisgyblion Blwyddyn 6**
Yn ddiweddar mae disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 wedi derbyn gwersi seiclo gan swyddogion diogelwch y ffordd Cyngor Caerdydd. Dysgon nhw reolau'r ffordd fawr a sut i ofalu am eu beiciau. Mwynheuon nhw'r profiad yn fawr.

**Her Tetrahedron**
Yn ddiweddar cymerodd disgyblion Blwyddyn 4 ran mewn gweithdy Her Tetrahedron. Buont yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i adeiladu Tetrahedron anferth gan ddefnyddio rhodenni hoelbren a bandiau elastig. Roedd angen llawer o amynedd a dyfalbarhad arnynt a dangoson nhw eu bod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Da iawn Blwyddyn 4 - gwaith tîm arbennig!



Blwyddyn 4 yn mwynhau Her y Tetrahedron

# Ysgol Llanhari

**Croeso nôl**

Croeso mawr i bawb nôl i'r ysgol ac i'n disgyblion newydd sbon ni yn nosbarth Dewi Draenog. Rwy'n siŵr bydd pawb wrth eu boddau ac yn cael llawer o hwyl yn chwarae ac ymchwilio gyda'i ffrindiau newydd.





**Chwaraeon**

Llongyfarchiadau mawr i fechgyn blwyddyn 6 sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Ysgolion Pontypridd o dan 11 eleni yn chwarae rygbi. Arbennig!!



Diolch i Zoe, sy'n hyfforddwr personol am ddod i gynnal sesiwn ffitrwydd gyda Bl. 5 a 6 heddiw yn ystod ein gwers ymarfer corff. Ymdrech arbennig gan bawb.





**Taith i Aber**

Diolch i Brifysgol Aberystwyth am daith ysbrydoledig i flynyddoedd 12 a 13 ar gyfer y cwrs anwytho ac roedd yr haul yn gwenu!



Cafodd disgyblion o flwyddyn 11 amser arbennig ym Mhenryn Gŵyr ar gyfer eu gwaith dysgu yn yr awyr agored. Lluniau a golygfeydd gwych!



**Clybiau**

Rydym wedi dechrau cynnal ein clybiau allgyrsiol eisoes a'r plant wrth eu boddau yn mynychu clwb pêl-rwyd, pêl-droed, côr a chlwb eco.



**Cylch Ti a Fi**

Bydd Cylch Ti a fi yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar fore Gwener am 9:15 – 10:30 yb, dewch yn llu.

# Hanes timoedd y Dwrlyn yn 2023

Mae'n amlwg fod yr awel ysgafn sy'n chwythu ar draws Parc y Dwrlyn, Pentyrch, wedi ysbrydoli bois y pentre yn ystod 2023 - y tri thîm sy'n rhannu'r meysydd eang wedi mwynhau llwyddiant arbennig yn ystod y flwyddyn. Y tîm pêl-droed i ddechre - y Pentyrch Rangers - yn enillwyr dwbwl - Pencampwyr Ail Adran Cynghrair Caerdydd a'r Cyffinie a hefyd cipio Cwpan GD Roberts i glybie'r ardal. Tipyn o gamp, ac mae'r tymor newydd mewn adran uwch wedi dechre'n wych hefyd, y tîm yn ennill eu tair gêm agoriadol yn gyffyrddus ac heb ildio'r un gôl.

Yna bois y bel hirgron - hefyd yn sicrhau dyrchafiad ddiwedd y tymor diwetha i ail adran Cynghrair De Ddwyrain Cymru gan ennill 18 o'u 22 gem, a hwythe hefyd wedi dechre'r tymor newydd yn addawol gyda record cant y cant o'u dwy gem gynta yn y gynghrair bant yn Llantrisant a gartre'n erbyn Treharris er bod heb nifer fawr o'u prif chwaraewyr, naill ai wedi eu hanafu neu bant yn Ffrainc yn cefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd.

Ac ar ddiwrnod cofiadwy ddechre Medi, enillodd y cricedwyr gêm gyffrous yn erbyn Clydach i gyrraedd yr entrychion gan y byddan nhw'r tymor nesa mewn cwmni dethol ym mhrif adran Cynghrair Griced De Cymru - yn herio timoedd fel Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Sain Ffagan gyda'r cyfle i chware ar feysydd enwog fel Sain Helen, y Gnoll a Gerddi Sophia. Llongyfarchaide iddyn nhw i gyd a gobeithio bydd yr awel honno yn dal i ysbrydoli dros y misoedd sydd i ddod.

H.Ll.D

